Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy a Newid yn yr Hinsawdd

2015

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG8347 ISBN Digidol: 978 1 4734 6038 6

## Contents

Rhagair y Gweinidog....3
Sylwadau gan y Comisiynydd ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy a Chadeirydd Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru....6
1. Cyflwyniad....9
2. Cymru a'r Byd....11
2.1. Beth sydd wedi bod yn digwydd yn rhyngwladol? ....12
2.2. Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud....15
3. Mesur cynnydd....23
3.1. Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy....24
3.2. Dangosyddion y Newid yn yr Hinsawdd....26
Atodiadau....30
Atodiad 1 – Enghraifft o weithgarwch allweddol a gyflawnir....30
Twf a Swyddi Cynaliadwy ....30
Twf Gwyrdd....30
Iechyd a Llesiant Pobl....44
Cyrhaeddiad Addysgol....48
Cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau agored i niwed ....56
Atodiad 2 – Cynnydd Sectorau ....63
Cynnydd Sectorau....63
Y Sector Trafnidiaeth ....64
Y Sector Preswyl....65
Y Sector Busnes....66
Y Sector Amaeth a Defnyddio Tir....68
Y Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff ....69
Y Sector Cyhoeddus....70
Atodiad: Effaith symud i Gam 3 o System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ....72

# Rhagair y Gweinidog



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni ein dyletswyddau dan adran 79(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Adran 80 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae'r adroddiad yn disgrifio ein cynnydd a'n gweithgareddau ar ddatblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r cyfnod hwn wedi gweld newidiadau pwysig dros ben yn y wlad hon ac yn rhyngwladol. Yn rhyngwladol, gwelsom fabwysiadu Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a chytundeb ar fframwaith rhyngwladol caeth ar gyfer ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd. Yma yng Nghymru, rydym wedi adlewyrchu'r agenda hon mewn dau ddarn o ddeddfwriaeth sydd yn rhai cyntaf o'u bath yn y byd: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n trosi'r nodau rhyngwladol hyn yn fframwaith statudol blaengar wedi ei deilwrio i anghenion Cymru. Rwyf yn gadarn o'r farn y bydd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi'r sail cyfansoddiadol parhaol ar gyfer sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud a'r penderfyniadau a wnawn.

Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi ein cynnydd presennol yn erbyn ein targedau a'n dangosyddion cyfredol. Dengys ein dangosyddion Datblygu Cynaliadwy fod gwelliant cyffredinol wedi bod a'n bod unwaith eto wedi cyrraedd ein targed o 3% o allyriadau blynyddol. Mae ein hallyriadau yn erbyn y targed o 40% erbyn 2020, fodd bynnag, wedi cynyddu, gan dynnu sylw at y ffaith fod rhaid gwneud mwy. Bydd ein gwaith yn mabwysiadu'r targedau statudol a chyllido carbon yn ddeddfwriaethol yn darparu'r sail i gyflymu cyflawni, ac mae'n anfon arwydd clir a chadarnhaol i fusnesau ynghylch y newid tuag at economi lân a chymdeithas garbon isel, gan adeiladau hyder a darparu sicrwydd ar gyfer buddsoddi.

Mae'r adroddiad yn cynnwys, am y tro olaf, sylwadau gan Peter Davies, y Comisiynydd ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy a Chadeirydd Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd Cymru. Rwyf yn diolch yn ddiffuant i Peter am ei holl waith caled dros y blynyddoedd. Mae'r arweinyddiaeth greadigol a ddangosodd ef, yn enwedig yn ystod y sgwrs gyhoeddus ynghylch y 'Gymru y mae arnom ei Heisiau', yn cadarnhau fy argyhoeddiad o bwysigrwydd a gwerth gwirioneddol sicrhau bod pobl, cymunedau a busnesau yn cymryd rhan lawn yn y ddadl ynglŷn â dyfodol ein cenedl. Edrychaf ymlaen at weithio gyda Sophie Howe, ei olynydd, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol cyntaf Cymru, i helpu i droi ein huchelgais yn realiti.



## Crynodeb Gweithredol

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed mewn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn crynhoi llawer o'r camau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru dros y cyfnod adrodd. Mae'r adroddiad wedi ei rannu'n bedair rhan allweddol:-

***Cymru a'r byd*** –
Dros y flwyddyn ddiwethaf cafwyd cytundebau rhyngwladol pwysig ar ddatblygu cynaliadwy a hefyd y newid yn yr hinsawdd, gyda Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a Chytundeb Paris ar yr Hinsawdd, sy'n rhoi canolbwynt cyffredin i wledydd ar gyfer gweithredu. Mae'r agenda newydd yn galw ar wledydd i gychwyn ymdrechion i gyflawni 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (SDGs) dros y 15 mlynedd nesaf, gan leihau allyriadau bron i ddim, yn ail hanner y ganrif, os ydym i osgoi newid trychinebus yn yr hinsawdd. Mae'r Cytundebau yn gweithio gyda'i gilydd ac yn atgyfnerthu ei gilydd. Bydd cytundeb cryf ar yr hinsawdd, ynghyd â gweithredu'n ymarferol, yn gymorth inni gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy er mwyn rhoi terfyn ar dlodi, adeiladu economïau cryfach a chymdeithasau mwy diogel, iachach a haws byw ynddynt. Mae deuddeg o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn golygu gweithredu'n uniongyrchol ar y newid yn yr hinsawdd – yn ogystal â bod nod i'r newid yn yr hinsawdd ei hun.

***Yr hyn yr ydym wedi ei wneud*** – Ochr yn ochr â'r agenda ryngwladol, rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd wedi cynnwys sgwrs genedlaethol ar y Gymru y mae arnom Eisiau ei Gweld erbyn 2050, a gynhaliwyd gyda phobl a chymunedau ar draws Cymru. Credwn mai'r Ddeddf hon yw'r gyntaf yn y byd i wneud cyswllt deddfwriaethol â Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a gytunwyd ym mis Medi 2015, a'i bod hi'r gyntaf o'i bath i sefydlu ei chasgliad ei hun o nodau datblygu cynaliadwy o fewn deddfwriaeth. Mae Cymru hefyd ymysg grŵp bychan o wledydd sydd wedi sefydlu rôl statudol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Ategir hyn gan y gwaith ar Fil yr Amgylchedd (Cymru), fydd, pan fydd wedi dod yn ddeddf, yn gwneud Cymru, cyn belled ag y gwyddom, yn un o'r gwledydd cyntaf i ddeddfu'n llawn ar gyfer Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, ac yn un o'r gwladwriaethau neu'r rhanbarthau cyntaf i ddeddfu ar gyllidebau carbon.

***Mesur cynnydd*** – Mae'r adran hon yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan ddefnyddio gwahanol fesurau a dangosyddion. Yn nhermau cynnydd, yn y casgliad diweddaraf o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru[1]:

- Dangosai 25 welliant clir;
- Dangosai 16 ychydig neu ddim newid;
- Ni ddangosai yr un ohonynt ddirywiad clir;
- Roedd 3 heb ddigon neu heb ddim data cymharol.

Mae'r holl ddangosyddion oedd yn dangos gwelliant clir yn 2013 wedi parhau i ddangos gwelliant yn 2014. At hynny, roedd 3 dangosydd oedd yn dangos 'ychydig neu ddim newid' yn 2013 yn

[1] Sut ydych chi'n mesur cynnydd cenedl: Cynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol i fesur i weld a yw Cymru yn cyflawni'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru (2015) http://gov.Cymru/statistics-and-research/sustainable-development-indicators/?lang=en

dangos gwellant clir yn 2014; y rhain oedd Effeithiau Ecolegol llygredd yn yr aer (asidedd), Anghyfartaledd iechyd (babanod yn marw) a dibyniaeth ar fudd-daliadau.

At hynny, o ran ein hallyriadau, rydym unwaith eto wedi cyrraedd ein targed o 3% o allyriadau yn flynyddol ac mae data dros dro yn awgrymu ein bod ar y llwybr i gyrraedd y targed erbyn 2014. Yn nhermau cynnydd yn erbyn ein targed ehangach o 40% erbyn 2020, fodd bynnag, mae'r adroddiad yn dangos bod cyfanswm ein hallyriadau mewn gwrthgyferbyniad wedi gostwng o 11.9% yn erbyn llinell gychwyn 1990. Yn 2013 cododd allyriadau yng Nghymru o 10.3% o gymharu â 2012. Y rheswm pennaf am hyn oedd cynnydd mewn allyriadau o'r sector haearn a dur a'r newid o ddefnyddio nwy naturiol i ddefnyddio glo mewn gorsafoedd pŵer.

Wrth egluro'r cyfraniad i'r targed o 3% gan bob un o'r sectorau allweddol dengys yr adroddiad fod yr holl sectorau wedi gostwng eu hallyriadau o gymharu â'r man cychwyn, gyda'r gostyngiadau ar gyfer pob sector fel a ganlyn: Sector Cludiant (-8.7%), Sector Preswyl (-10.5%), Sector Busnes (-20.1%), Sector Amaeth a defnydd y Tir (-4.5%), Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff (-46.7%) a'r Sector Cyhoeddus Datganoledig (-13.6%).

Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod yr holl sectorau wedi lleihau eu hallyriadau ers 2012, er bod cyflymder y cynnydd wedi amrywio rhwng y sectorau gwahanol gyda'r Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff yn dangos y gostyngiadau mwyaf o -14.5%.

***Camau gweithredu ychwanegol a chynnydd y sectorau*** – Mae Atodiad 1 yn disgrifio'r camau allweddol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n ategu adroddiad cynnydd y rhaglen lywodraethu a gyhoeddwyd yn 2015. Mae Atodiad 2 yn disgrifio cynnydd fesul sector.

**Sylwadau gan y Comisiynydd ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy a Chadeirydd Comisiwn Newid Hinsawdd Cymru**



Ers 2007, cefais yr anrhydedd o ddal swyddogaethau annibynnol mewn perthynas â dyletswydd Llywodraeth Cymru i hybu datblygu cynaliadwy; i ddechrau fel Comisiynydd Cymru ar Gomisiwn Datblygu Cynaliadwy y DU hyd 2011, wedyn fel Comisiynydd ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy a Chadeirydd y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd. Dros y cyfnod hwnnw, cefais y cyfle i roi sylwadau ar Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy.

Rwyf wedi bod yn glir ar hyd yr amser y dylai'r Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, gynrychioli ciplun o'r cyfraniad y mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi ei wneud tuag at ein nodau datblygu tymor hir dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae angen iddo felly fynd i'r afael â'r materion sylweddol, canolbwyntio ar ganlyniadau, cynnwys gwersi oddi wrth fethiannau a bod ar gael i bawb. Bob blwyddyn mae'r sylwadau hyn wedi cynnwys ystyriaeth o'r gwendidau yn yr adroddiad o ran cyflawni yn erbyn yr egwyddorion hyn ac nid yw'r adroddiad eleni yn wahanol gan fod yna:

- orchuddio Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy heb ddim cysylltiad â'r adroddiadau ar raglenni a pholisïau
- ychydig o ddadansoddiad o gyfraniad ymyriadau i'r cynnydd cyffredinol yn erbyn y dangosyddion neu asesiad o'r hyn sy'n cael yr effaith ymarferol fwyaf
- llawer o ganolbwyntio ar ymrwymiadau a mewnbynnau yn hytrach nag ar allbynnau a chanlyniadau, gyda bylchau mewn adrodd ar raglenni allweddol megis Cymru Effeithlon
- angen mynd i'r afael â materion anodd lle y ceir dadl ynghylch cyfeiriad polisi, megis ffordd liniaru'r M4 a'u cyfraniad i ddatblygu cynaliadwy
- gwahaniaeth yn agwedd y gwahanol adrannau sydd wedi cyfrannu, gan ôl-ffitio gwaith weithiau yn erbyn egwyddorion datblygu cynaliadwy
- ychydig o ganolbwyntio ar y ffordd y gall yr adroddiad ymgysylltu â'r cyhoedd
- y teimlad o hyd bod yr adroddiad yn rhywbeth ychwanegol a heb fod yn gysylltiedig ag adrodd ar y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'n dda iawn gennyf felly ddweud mai dyma'r sylwadau olaf ar adroddiad o'i fath! Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn tynnu ar wersi'r gorffennol ac yn mynd i'r afael â'r gwendid o weld datblygu cynaliadwy fel cysyniad sydd wedi ei ychwanegu. Bydd yn darparu fframwaith deddfwriaethol llawer cryfach ar gyfer sicrhau cyflawni'n well ac adrodd yn well, nid lleiaf drwy gadarnhau'r cysylltiad rhwng

ein nodau a'n dangosyddion cenedlaethol â'r Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r adroddiad felly yn iawn i bwysleisio pwysigrwydd y ddeddfwriaeth sydd wedi ei chyflwyno dros y flwyddyn ddiwethaf a'i gosod yng nghyd-destun datblygiadau byd-eang. Rwyf wedi pwysleisio bob amser bod ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy wedi bod yn ddimensiwn gwahanol ar daith datganoli. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hon yn cynrychioli cam mawr ymlaen o ran mynd i'r afael â gwersi'r gorffennol a chynnig arweinyddiaeth fyd-eang i'r dyfodol. Mae wedi cael ei chydnabod gan y Cenhedloedd Unedig yn y flwyddyn bwysig hon o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a chytundeb Paris ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Dengys y dystiolaeth gan arweinwyr byd-eang yn eglur fod cynnydd yn dibynnu ar wneud penderfyniadau cyson, clir, yn erbyn fframwaith rheoliadol cryf, wedi ei adeiladu ar bartneriaeth rhwng y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ac yn cael ei gyfleu drwy adroddiadau cynnydd tryloyw.

Mae profiad y blynyddoedd diwethaf yn dangos pwysigrwydd cysondeb yn y penderfyniadau a wneir ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus. Roedd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd gyda mi fel Comisiynydd yn ymwneud â'r diffyg alinio rhwng polisi cenedlaethol a gweithredu lleol. Gobeithio y bydd y ddeddfwriaeth newydd, sy'n ymwneud â'r holl sector cyhoeddus datganoledig, yn sicrhau llawer gwell aliniad a mwy o gysondeb yn y penderfyniadau a wneir ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, yn canolbwyntio ar nodau cyffredin ac yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin. Nid oes amheuaeth y bydd angen newid enfawr yn y cyrff cyhoeddus os ydynt i gyflawni bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gwersi pwysig sydd angen eu datblygu o'r adroddiad hwn wrth weithredu'r Ddeddf:

- Mae swyddogaeth dangosyddion, fel sail i lunio polisi a gweithredu fel sbardun i gyfathrebu yn cael ei gwanhau'n sylweddol gan yr oedi wrth eu cynhyrchu, fel gyda'r Ôl troed Ecolegol sy'n ymwneud â data 2011
- Mae natur dangosyddion datblygu cynaliadwy lefel uchel yn golygu mai annhebygol yw adroddiadau cynnydd blynyddol o ddangos newidiadau sylweddol, ac felly maent yn aneffeithiol o ran ysgogi dadl a gweithredu ar lefel genedlaethol. Byddwn yn annog Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sefydlu rhestr graidd o elfennau sy'n sbarduno cynnydd, gyda dangosyddion procsi cysylltiedig, lle y ceid tystiolaeth gliriach o gynnydd blynyddol ar faterion sy'n angenrheidiol i symud y dangosyddion cenedlaethol tymor hir.
- Nid yw dangosyddion yn golygu llawer heb gerrig milltir a meincnodau i gael gwybod "*a yw Cymru'n symud yn y cyfeiriad cywir ar y cyflymdra iawn*". Bydd gosod cerrig milltir fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn broses allweddol i'r Llywodraeth newydd a'r Comisiynydd, gan fod angen i bawb eu deall a chymryd meddiant ohonynt.
- Gall cyfraniad ymyriadau'r Llywodraeth i gynnydd yn erbyn dangosyddion fod yn anodd ei briodoli, ond mae angen llawer mwy o ganolbwyntio ar ganlyniadau a chyfleu effeithiolrwydd rhaglenni penodol.

- Mae angen i'r adroddiad fod wedi ei osod o fewn cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu a all dynnu'r gymdeithas ehangach i mewn i adolygu'r cynnydd tuag at y Gymru y mae arnom ei Heisiau. Dangosodd sgwrs genedlaethol ‘y Gymru y mae arnom ei Heisiau’ yn blaen y ffordd bell sydd gennym i fynd i ymgysylltu'n iawn a grymuso pobl a chymunedau ac felly mae'n hollbwysig bod y broses o adrodd yn cysylltu ac yn ffurfio rhan o sgwrs ddwy ffordd.
- Pwysigrwydd bod yn rhan o beilot adrodd Sector Cyhoeddus byd-eang CIPFA, oedd yn argymhelliad yn sylwadau y llynedd, fel dull o wella safonau adrodd ar draws y sector cyhoeddus.

Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn hefyd yn cynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd mewn cyflawni'r strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd. Cafwyd cynnydd cadarnhaol yn erbyn y targed o ostyngiad o 3% mewn allyriadau mewn meysydd datganoledig ac mae'n dda gweld bod yna adrodd am y pwyslais ar addasu a chadernid. Mae'r perfformiad yn erbyn ein targed o ostyngiad o 40% erbyn 2020 yn tanlinellu'r her i'n gwlad. Mae gennym nifer gymharol fwy o gwmnïau gweithgynhyrchu, sy'n defnyddio llawer o ynni, fel cwmnïau angori yn ein heconomi; a nifer cyfyngedig o liferi sydd gan ein llywodraeth ddatganoledig ac felly mae'n dibynnu'n drwm ar effaith polisïau'r DU a'r UE am ostwng allyriadau. Mae'r esiampl o ynni adnewyddadwy yn un enghraifft berthnasol, lle mae cynnydd yn ddibynnol i raddau helaeth ar bolisi Llywodraeth y DU. Er hynny, yn yr achos hwn, mae'r diffyg cynnydd cymharol ar ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol yn dal yn destun rhwystredigaeth a siom.

Bydd pasio Bil yr Amgylchedd yn ddiamau yn rhoi fframwaith cyfreithiol cryfach ar gyfer lleihau allyriadau, gyda chyfrifoldebau am gyllidebau carbon ar draws y llywodraeth. Bydd cyfarfod â her mor fawr yn gofyn am newid enfawr yn ein hagwedd fel yr eglurwyd ym maniffesto’r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd.

Nid oes amheuaeth nad ydym wedi gwneud cynnydd pwysig ers 2007, gyda meysydd o lwyddiant ysgubol megis yn y cyfraddau ailgylchu. Cafwyd enghreifftiau o arweinyddiaeth wych gan gyrff cyhoeddus, busnes a grwpiau cymunedol, llawer ohonynt wedi dangos eu hymrwymiad drwy lofnodi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy. Mae'n bwysig iawn i'r Llywodraeth barhau i alluogi eraill i weithredu a gall y Siarter chwarae rhan allweddol wrth symud ymlaen.

Nid yw’r holl gynnydd hyd yma gyda’i gilydd yn gyfystyr â’r trawsnewid a ddisgrifiwyd yn y dyheadau a gafodd eu crynhoi yng nghynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru 2009, sef "Un Gymru, Un Blaned". Fodd bynnag, mae Cytundeb Paris a'r ymrwymiad i Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig yn dangos ein bod yn awr mewn lle gwahanol gyda chonsensws byd-eang clir ar gyfer gweithredu ar draws gwledydd a chwmnïau. Rwyf yn credu bod yna lwyfan cryf i'r Llywodraeth nesaf gyflawni yn erbyn y disgwyliadau uchel hyn.

Cychwynnodd fy nhaith fel Comisiynydd fel penodiad dau ddiwrnod y mis gydag un aelod o staff. Mae'n dod i ben drwy drosglwyddo i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gyda phwerau a dyletswyddau cyfreithiol, a swyddfa lawn y tu ôl iddi. Yn olaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i

staff Cynnal Cymru am y gefnogaeth wych y maent wedi ei rhoi dros y pedair blynedd ddiwethaf a dymuno'n dda i Sophie Howe yn ei swydd newydd, gyffrous.

## 1. Cyflwyniad

***Pam mae arnom angen adroddiad blynyddol datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd?***

Mae'n ofynnol inni drwy gyfraith adrodd am ein gweithgareddau mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd. Mae’r dyletswyddau hyn wedi eu hegluro yn adran 79(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Adran 80 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Yn fwy penodol, mae'n ofynnol inni adrodd ar y ffordd y mae'r cynigion sydd wedi eu disgrifio yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy wedi cael eu gweithredu yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a pha gamau yr ydym wedi eu cymryd i ddelio ag achosion a chanlyniadau’r newid yn yr hinsawdd.

Yn y dyfodol, bydd angen inni adrodd yn wahanol. Mae hynny oherwydd bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LlCD") yn dod i rym, gan osod gofynion newydd ar Weinidogion Cymru i adrodd am gynnydd a gwneud datganiad am y trefniadau a wnaed i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'r rhain yn seiliedig ar adran 12 a 16 o Ddeddf LlCD. Ar ôl adroddiad y flwyddyn hon, byddwn yn sefydlu casgliad newydd o drefniadau adrodd ar gyfer Gweinidogion Cymru, i gael eu cymhwyso hefyd ar wahân i gyrff cyhoeddus penodedig ar draws Cymru.

Fodd bynnag, gyda thymor gwasanaeth Llywodraeth bresennol Cymru i ddod i ben cyn y cyfnod adrodd nesaf, ni fydd parhad o'i Rhaglen Lywodraethu, nac adrodd yn ei herbyn, y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Yn hytrach, bydd adrodd am ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol yn seiliedig ar adrannau 12 a 16 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Fel Llywodraeth, rydym hefyd yn adrodd am y cynnydd yr ydym wedi ei wneud ar yr ymrwymiadau a eglurwyd gennym yn 2011 drwy ein Rhaglen Lywodraethu. Mae ein hadroddiad ar ddatblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd felly yn ategu'r adroddiad hwn gyda rhagor o wybodaeth am yr hyn yr ydym wedi ei wneud.

***Beth yw datblygu cynaliadwy?***

Datblygu Cynaliadwy yw egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth Cymru a thros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio ar integreiddio ac alinio gweithredoedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru â'r modd yr ydym yn hybu datblygu cynaliadwy. Rhoddai'r Adroddiad Blynyddol diwethaf ar Ddatblygu Cynaliadwy (2013/14) wybodaeth am feysydd allweddol o weithgaredd o gwmpas ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

"Ystyr ….’datblygu cynaliadwy’ yw'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, sydd wedi eu hanelu at gyflawni nodau llesiant"

(Adran 2 Deddf LlCD)

Mabwysiadwyd yr agwedd honno i ddarlunio ymhellach sut yr oedd datblygu

cynaliadwy, fel egwyddor drefnu ganolog, wedi ei halinio â chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y cam hwnnw drwy amlinellu enghreifftiau allweddol o gamau gweithredu yr ydym wedi eu cymryd sy'n datblygu ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, fel y cyfryw, nid yw wedi ei fwriadu fel trosolwg cynhwysfawr ar weithgaredd Llywodraeth Cymru; ar gyfer hynny dylech gyfeirio'n ôl at Adroddiad Cynnydd y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015.[2]

Fel y cydnabuwyd ar lefel y Cenhedloedd Unedig, drwy'r cytundebau rhyngwladol allweddol ar y Nodau Byd-eang a gweithredu ar yr hinsawdd, nid yw datblygu cynaliadwy yn bosibl heb fynd i'r afael â her y newid yn yr hinsawdd. Gan gymryd arweiniad oddi wrth y fframwaith rhyngwladol newydd, mae'r adroddiad hwn felly yn integreiddio ac yn alinio adrodd am ein cynnydd ar y newid yn yr hinsawdd â'r camau a gymerwyd ar ddatblygu cynaliadwy.

***Sut mae'r adroddiad wedi ei strwythuro?***

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cychwyn gyda'r cyd-destun byd-eang ar gyfer datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd a beth y mae hyn yn ei olygu i Gymru. Mae wedyn yn crynhoi'r cynnydd allweddol sydd wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig y camau yr ydym wedi eu cymryd gydag eraill i ddeddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) a'r amgylchedd (Bil yr Amgylchedd). Mae wedyn yn adrodd ar y dangosyddion sydd gennym yn eu lle i fesur datblygu cynaliadwy yng Nghymru, a'n hallyriadau carbon. Ar ôl hynny, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at enghreifftiau allweddol o weithgaredd ar ddatblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd yn erbyn y strwythur a ddarparwyd gan drefniadau adrodd y Rhaglen Lywodraethu.

Yn olaf, mae Atodiad wedi ei gynnwys yn egluro'r cynnydd ar allyriadau ar gyfer pob sector ac yn egluro effaith symud i Gyfnod 3 System Fasnachu Allyriadau'r UE (EU-ETS). Mae Atodiad Technegol yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn, sy'n cynnwys y dangosyddion perfformiad ar leihau allyriadau a ddatblygwyd ar gyfer pob sector.

[2] http://gov.wales/about/programmeforgov

# 2. Cymru a'r Byd




**"Yr hyn y mae Cymru yn ei wneud heddiw y bydd y byd yn ei wneud yfory"**

(Nikel Seth, Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, Y Cenhedloedd Unedig, 2015)

## 2.1. Beth sydd wedi bod yn digwydd yn rhyngwladol?

"Agenda'r bobl yw hon, cynllun gweithredu ar gyfer rhoi terfyn ar dlodi yn ei holl ddimensiynau, yn ddi-droi'n ôl, ym mhobman, heb adael neb ar ôl,"

(Ban Ki Moon, 2015)

*Nid yw Cymru ar ei phen ei hun yn darganfod ffyrdd o fynd i'r afael ac ymateb i rai o'r heriau cynaladwyedd tymor hir y mae ein cymunedau yn eu hwynebu. Mae dod yn wlad gyfrifol yn fyd-eang yn golygu paratoi, ac ar adegau, arwain y ffordd i gyfrannu tuag at fyd mwy cynaliadwy. Mae'r adran hon yn adrodd hanes yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn rhyngwladol dros y cyfnod adrodd i osod y cyd-destun ar gyfer yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud yng Nghymru.*

**Nodau byd-eang**

Ers 2012 mae gwledydd ar draws y byd, dan arweiniad y Cenhedloedd Unedig wedi bod yn cymryd rhan mewn ymarferiad enfawr i ddatblygu casgliad o Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) er mwyn **rhoi terfyn ar dlodi, amddiffyn y blaned,** a **sicrhau ffyniant i bawb** fel rhan o agenda datblygu cynaliadwy newydd. Mae'r nodau hyn yn adeiladu ar, ac yn disodli, Nodau Datblygu'r Mileniwm oedd yn ymdrin â'r cyfnod 2000-2015.

Roedd y broses o gyrraedd agenda datblygu ôl-2015 yn cael ei harwain gan Aelod-wladwriaethau gyda chyfranogiad bras oddi wrth Grwpiau Mawr a rhanddeiliaid cymdeithas sifil eraill. Ar 25 Medi 2015, fe wnaeth Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig fabwysiadu'n ffurfiol Agenda fyd-eang, integredig a thrawsnewidiol 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, ynghyd â chasgliad o 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae targedau penodol ar gyfer pob nod i'w cyflawni dros y 15 mlynedd nesaf.

**Ffigur 1 – Y 17 Nod Datblygu Cynaliadwy**




**Ffynhonnell:** [www.un.org](http://www.un.org)

Mae'r nodau newydd hyn wedi eu hamlinellu yn *'Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development'* a gytunwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.[3] Casgliad o nodau cyffredinol a chynhwysol ydynt sy'n cynnwys y nod i roi terfyn ar dlodi, hybu ffyniant cynaliadwy a lles i bawb, gwella'r amgylchedd naturiol a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ac maent yn gerrig milltir allweddol yn hanes y byd.

***Er mwyn i'r nodau gael eu cyrraedd, mae angen i bawb wneud ei ran: llywodraethau, y sector preifat, cymdeithas sifil a phobl fel chi***

(Y Cenhedloedd Unedig, 2015)

Bydd y Nodau a'r targedau yn ysgogi gweithredu dros y 15 mlynedd nesaf mewn meysydd o bwysigrwydd allweddol i ddynoliaeth ac i'r blaned.

| | |
|---|---|
| Pobl | Rydym yn benderfynol o roi terfyn ar dlodi a newyn, ym mhob ffurf a dimensiwn, a sicrhau bod pob bod dynol yn gallu cyflawni ei botensial gydag urddas a chydraddoldeb mewn amgylchedd iach. |
| Y Blaned | Rydym yn benderfynol o amddiffyn y blaned rhag ei diraddio, gan gynnwys drwy ddefnyddio a chynhyrchu yn gynaliadwy, rheoli ei hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a gweithredu ar frys ar y newid yn yr hinsawdd, fel y gall fodloni anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. |
| Ffyniant | Rydym yn benderfynol o sicrhau y gall pob bod dynol fwynhau bywyd o ffyniant a bodlonrwydd a bod cynnydd economaidd, cymdeithasol a thechnolegol yn digwydd mewn harmoni gyda natur. |
| Heddwch | Rydym yn benderfynol o feithrin cymdeithasau heddychlon, cyfiawn a chynhwysol sy'n rhydd o ofn a thrais. Ni ellir cael datblygu cynaliadwy heb heddwch na heddwch heb ddatblygu cynaliadwy. |
| Partneriaeth | Rydym yn benderfynol o gasglu ynghyd y moddion angenrheidiol i weithredu'r Agenda hon drwy Bartneriaeth Fyd-eang, wedi ei hadfywio, ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, ar sail ysbryd o gydlyniaeth fyd-eang, gryfach, gan ganolbwyntio'n arbennig ar anghenion y tlotaf a'r mwyaf agored i niwed a chyda chyfranogaeth yr holl wledydd, yr holl randdeiliaid a'r holl bobl. |
| Ffynhonnell: Trawsnewid ein Byd, y Cenhedloedd Unedig (2015) | |

Dyma'r tro cyntaf yn hanes y byd i'r holl genhedloedd ddod ynghyd a chytuno ar safbwynt cyffredin ar Ddatblygu Cynaliadwy a chanolbwynt cyffredin ar gyfer gweithredu. Yn ei araith i'r Cenhedloedd Unedig, dywedodd Prif Weinidog y DU,

> *"Felly rydym yn ymrwymo i wneud cynnydd mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac sy'n amddiffyn yr un a'r unig blaned sydd gennym ar gyfer y tymor hir ac sy'n trysori ac yn diogelu ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol".*

[3] Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development, 2015 ( https://sustainabledevelopment.un.org/post2015/transformingourworld)

Mae'r Agenda newydd yn galw ar wledydd i gychwyn ymdrechion i gyflawni’r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (SDGs) dros y 15 mlynedd nesaf.

Sefydlir proses fonitro newydd i fesur cynnydd yn erbyn y 17 nod a'r 168 targed, yr adroddir arnynt yn flynyddol.

Bydd angen i wledydd yn awr gydweithio i weithredu'r SDGs. Cydnabyddir hefyd fod dod â phopeth at ei gilydd a'r moddion gweithredu, gan gynnwys adnoddau ariannol, datblygiadau technolegol a throsglwyddo ac adeiladu capasiti, yn ogystal â rôl partneriaethau, yn hollbwysig.

### *Fframwaith y Cenhedloedd Unedig - y Confensiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd*

Ym mis Rhagfyr cynhaliwyd Unfed Cynhadledd ar Hugain y Partïon i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (COP21) ym Mharis. Roedd yr uwchgynhadledd wedi ei disgrifio fel ein cyfle olaf i sicrhau cytundeb rhyngwladol i gyfyngu'r newid byd-eang yn yr hinsawdd i ddwy radd Celsius. Uwchlaw hynny mae Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) o'r farn y bydd yr effeithiau yn fygythiad i ddynolryw ac y gallent arwain at newid anwrthdroadwy yn yr hinsawdd.

Roedd cytundeb Paris yn gam hanesyddol ymlaen, gyda bron i 200 o wledydd yn ymrwymo i gamau gweithredu y byddant yn cael eu galw i gyfrif amdanynt am y tro cyntaf erioed. Mae'n dynodi trobwynt clir tuag at ddyfodol cynaliadwy ac isel mewn carbon. Bydd rhaid i wledydd yn awr ddod ynghyd yn rheolaidd i adolygu eu cynlluniau hinsawdd a, gyda'i gilydd, sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r fargen yn gosod nod tymor hir, glir, o bron i ddim allyriadau yn ail hanner y ganrif, gan ddangos bod y byd wedi ymrwymo i ddatgarboneiddio. Mae hyn yn anfon arwydd cryf i fusnesau bod y newid i economi lân a chymdeithas isel mewn carbon yn fyd-eang, yn anwrthdroadwy ac yn drawsnewidiol, ac yn rhoi hyder, fydd yn gymorth i ysgogi'r buddsoddiad sydd ei angen. Bydd hyn yn clirio'r llwybr i'r sector preifat ysgogi datrysiad tymor hir.

| **Cytundeb Paris** |
| --- |
| 1. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i wledydd gael cynlluniau lliniaru i leihau allyriadau ac ailymweld â'r rhain bob pum mlynedd o 2020 gyda golwg ar godi uchelgais yn y dyfodol.<br>2. Mae'n ei gwneud yn orfodol mesur cynnydd tuag at y nodau tymor hir ar liniaru, addasu, a chyllid, gan ddechrau yn 2018, a phob pum mlynedd o hynny ymlaen fel sail i adolygiadau gwledydd o'u cynlluniau lliniaru.<br>3. Mae'n cloi i mewn y nod dan y 2 radd fel yr amcan byd-eang - ac mae'n mynd ymhellach drwy ddatgan y dylid gwneud ymdrechion i gyfyngu i 1.5 gradd.<br>4. Mae'n gosod nod tymor hir ar y cyd o bron i ddim allyriadau yn ail hanner y ganrif (erbyn diwedd y ganrif o leiaf) - y bydd y gwledydd i gyd yn cydweithio i'w chyrraedd. Rhydd hyn syniad clir o gyfeiriad er mwyn gyrru buddsoddiad a chynorthwyo i leihau cost gweithredu ar yr hinsawdd drwy dechnoleg ratach a mwy o fentrau arloesol.<br>5. Mae'n sefydlu fframwaith sengl ar gyfer mwy o dryloywder sy'n gofyn i wledydd adrodd ar eu cynnydd o ran gweithredu a chyflawni eu cynlluniau lliniaru, ac wedyn gwneud y rhain yn destun adolygiadau annibynnol ac ystyriaeth o wahanol gyfeiriadau.<br>6. Mae'n sefydlu nod tymor hir newydd i gryfhau ymaddasiad a gwytnwch a lleihau gwendid yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. Bydd gwledydd yn rhannu eu cynlluniau i ymaddasu ac yn cydweithio i gefnogi'r gwledydd datblygol hynny sydd mewn angen, gan eu cynorthwyo i addasu i'r newid yn yr hinsawdd. |

## 2.2. Yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud

"Nid yw Cymru yn unigryw yn ceisio gwneud hyn, ond rydym yn arwain y maes. ...Rydym wedi bod yn cadw i fyny gyda datblygiadau rhyngwladol i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru yn ddrych o'r hyn sy'n digwydd ar lefel y Cenhedloedd Unedig."

Carl Sargeant, Gweinidog Adnoddau Naturiol (2015)

*Mae'r cyd-destun i wledydd ar draws y byd newid wedi cael ei wneud yn glir ar y lefel ryngwladol. Rydym ni wedi bod yn brysur dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn edrych i weld a oes angen i'n deddfwriaeth ni newid fel ein bod yn dod yn wlad fwy cynaliadwy. Mae hyn wedi golygu cael sgwrs gyda phobl ledled Cymru ynglŷn â'r Gymru y mae arnynt eisiau ei gweld. Mae'r adran hon yn disgrifio sut yr ydym wedi gwneud hyn.*

***Deddfu ar gyfer datblygu cynaliadwy***

Yn 2011, fe wnaethom ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru a sefydlu corff datblygu cynaliadwy annibynnol i Gymru. Mae adroddiadau blaenorol yn rhoi manylion rhai o'r camau cynnar a gymerwyd gennym i wireddu'r ymrwymiad hwn, ac mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y gweithgaredd sylweddol i basio'r ddeddf newydd.

Ym mis Gorffennaf 2014, fe wnaethom gyflwyno Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd hwn yn ganlyniad llawer o waith datblygu polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac arbenigwyr i gynorthwyo i ganfod sut y gallai cyfraith newydd wneud Cymru yn genedl fwy cynaliadwy.

Ar 17 Mawrth 2015, cafodd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn ddechrau cyfnod newydd i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, gan gryfhau trefniadau llywodraethu Gweinidogion Cymru ac, yn arwyddocaol, cyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru.

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sicrhau bod gwneud pethau mewn ffordd gynaliadwy yn dod yn egwyddor graidd sy'n arwain sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar ein cymdeithas, ein heconomi, ein hamgylchedd a'n diwylliant. Am y tro cyntaf, bydd cyrff cyhoeddus sydd wedi eu rhestru dan y Ddeddf (megis cynghorau lleol, byrddau iechyd a'r Llyfrgell Genedlaethol) dan ddyletswydd gyfreithiol i weithio tuag at gyflawni casgliad o nodau cyffredin sy’n diffinio'r Gymru y mae ar bobl eisiau ei gweld yn y dyfodol.

Mae prif rannau'r Ddeddf yn egluro yr hyn y mae sefydliadau yn anelu i'w gyflawni ac yn esbonio sut y dylent weithio'n wahanol i gyflawni hyn; dyma'r hyn a olygir wrth ddatblygu cynaliadwy fel egwyddor drefnu ganolog.

Cafodd dogfen 'Hanfodion'[4] ei llunio gan Lywodraeth Cymru fel dogfen gyfathrebu i gynorthwyo darllenydd y Ddeddf, er nad yw'n ffurfio rhan o'r Ddeddf ei hun nac yn ganllaw statudol ar gyfer y Ddeddf.

Wrth ddatblygu'r Ddeddf ac wrth gychwyn y gwaith i gynorthwyo i weithredu'r Ddeddf rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau allweddol.

*Mae'r gweithgareddau allweddol yn cynnwys:-*

- ✓ *Ymgysylltu â phobl ynglŷn â'r Gymru y mae arnom ei heisiau (gweler isod)*
- ✓ *Dwyn arbenigwyr at ei gilydd* - Fe wnaethom sefydlu Grŵp Cynghori Technegol oedd yn rhedeg rhwng 2012 a 2014 i roi mewnbwn i ddatblygu'r gyfraith newydd.
- ✓ *Asesu'r effaith ar gydraddoldeb, hawliau plant, y Gymraeg a phrofi gwledig* - Cwblhawyd asesiad effaith cyfunol ar gyfer Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i gyfarfod â'n dyletswyddau statudol a pholisi ond hefyd i sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull integredig. Gellir dod o hyd i hwn yma[5]
- ✓ *Asesu effaith pob nod arfaethedig* - Yn ychwanegol at yr asesiad cyfunol (uchod) fe wnaethom edrych ar y materion hyn yn erbyn pob nod arfaethedig. Gellir dod o hyd i hwn ym Mhennod 8 y Memorandwm Esboniadol.[6]
- ✓ *Craffu* - Yn dilyn cyflwyno'r Bil, roedd gweithgareddau'n canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith craffu ar y Bil drwy'r Cynulliad a rhoi eglurder a mynd i'r afael â materion allweddol fel yr oeddent yn codi. Ceir manylion llawn y gwaith craffu ar y Ddeddf yma[7]
- ✓ *Cefnogi rhaglen mabwysiadwyr cynnar* - Fe wnaethom ddarparu grant i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer eu fframwaith datblygu cynaliadwy oedd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol i fod yn 'fabwysiadwyr cynnar' ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd[8] (rhagor o wybodaeth isod).
- ✓ *Canllaw i gyrff cyhoeddus* - fel paratoad ar gyfer y Bil, dechreuodd gwaith ar ddatblygu canllaw statudol i gyrff cyhoeddus. Rhwng mis Chwefror a mis Mai 2015 cyd-drefnwyd cyfnod o gyfranogi pan gasglwyd barn gynnar rhanddeiliaid ynghylch cynnwys a fformat y canllaw. Cyhoeddwyd dogfen drafod i ysgogi'r drafodaeth hon.[9]

✓ *Sut i fesur cynnydd cenedl* - Dechreuwyd gwaith ar y dangosyddion cenedlaethol i fesur y saith nod llesiant, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ar draws Cymru i gasglu barn pobl.

---

[4] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150428-guide-to-the-fg-act-en.pdf

[5] Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Asesiad Effaith Cyfunol, Llywodraeth Cymru (2014) http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/future-generations

[6] Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Memoranduwm Esboniadol, Llywodraeth Cymru (2015) http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld9831-em-r%20-%20well-being%20of%20future%20generations%20(wales)%20bill%20-%20revised%20explanatory%20memorandum/pri-ld9831-em-r-e.pdf


[7] http://www.senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=10103

[8] http://www.wlga.gov.uk/well-being-of-future-generations-act-early-adopter-resources-and-materials/

[9] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/drafting-guidance-for-the-well-being-of-future-generations-wales-bill/?lang=en

*Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig* - Mae cyflawni'r nodau llesiant yn galw am arweinyddiaeth effeithiol mewn cyrff cyhoeddus i yrru gweithgarwch ymlaen ar draws Cymru. I gefnogi hyn rydym wedi datblygu casgliad cyffredin o werthoedd ac ymddygiadau Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig, a chafodd y rhain eu lansio yn yr Uwchgynhadledd Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Tachwedd 2015. Yr her arwain i bob un, waeth ble rydym yn sefyll o fewn y corff, yw gweithio mewn ffordd sy'n gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol i'n cynorthwyo i greu Cymru y mae arnom eisiau byw ynddi yn awr ac yn y dyfodol. Mae'n ffordd o feddwl ac ymddwyn - datblygu dyfodol cyffredin, lle y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd gyda phwrpas

**Ffigur 2 - Y saith nod llesiant a'r 5 ffordd o weithio**




- ✓ cyffredin. Ceir gwybodaeth bellach am yr un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymreig drwy Academi Wales[10]

## *Sgwrs ynglŷn â'r Gymru y mae arnom ei Heisiau*

Yn union fel y gwnaeth y Cenhedloedd Unedig gychwyn sgwrs fyd-eang ynghylch y 'Byd y mae arnom ei Eisiau',[11] fe wnaethom ninnau gychwyn sgwrs genedlaethol am y ‘Gymru y mae arnom ei Heisiau’. Dechreuodd hyn gyda datganiad ar 'Y Gymru y mae arnom ei Heisiau erbyn 2050' i ysgogi trafodaeth ar draws Cymru ynghylch nodau datblygu cynaliadwy tymor hir y dylem weithio tuag atynt. Gwnaed y datganiad hwn ym mis Chwefror 2014[12] ac roedd yn gwneud yn glir yr angen i feddwl yn wahanol a gweithio gyda'n gilydd. Roedd yn cydnabod bod angen inni adeiladu consensws yng Nghymru hefyd o gwmpas y nodau cyffredin, sydd fwyaf pwysig i bawb ohonom, gan gynnwys ein plant a'n hwyrion.

Cychwynnwyd y 'Sgwrs Genedlaethol' am y Gymru y mae arnom ei Heisiau ym mis Chwefror 2014 gan Jeff Cuthbert AC, sef y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd. Fe'i harweiniwyd gan Peter Davies gyda chymorth gan Cynnal Cymru fel rhan o gytundeb Llywodraeth Cymru gyda hwy i gefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Ceir mwy o fanylion am y Gymru y mae arnom ei Heisiau ar http://thewaleswewant.co.uk/, yn cynnwys fideos a datganiadau gan bobl ledled Cymru am y Gymru yr oedd arnynt Eisiau ei Gweld erbyn 2050.

Fe wnaethom gefnogi'r sgwrs hon a defnyddio'r canfyddiadau i benderfynu ar y 6 nod llesiant a gafodd eu cynnwys ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mis Gorffennaf 2014. Fe wnaeth y Sgwrs Genedlaethol ennyn diddordeb oddeutu 7,000 o bobl ar draws Cymru a rhoi prawf ar ddulliau gwahanol

[10] Academi Wales http://www.academiwales.org.uk/

[11] https://www.worldwewant2030.org/


[12] Datganiad ysgrifenedig -Bill Cenedlaethau'r Dyfodol - y Gymru y mae arnom ei Heisiau erbyn 2050, Llywodraeth Cymru (2014) http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2014/futuregenerationsbill/?lang=en

o ymgysylltu â phobl - parhaodd y sgwrs hon drwy gydol y cyfnod o graffu ar y Bil.

Un nodwedd allweddol fu recriwtio Hyrwyddwyr y Dyfodol a'u rôl hwy oedd datblygu'r Sgwrs, gan ddod yn eiriolwyr dros genedlaethau'r dyfodol a chodi'r materion oedd yn effeithio ar eu grwpiau, cymunedau a sefydliadau.

Mae Adroddiad y Gymru y mae arnom ei Heisiau, sydd fel peilot ar gyfer Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, fydd yn rhan o waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cynrychioli penllanw sgwrs gydol blwyddyn gyfan gyda phobl ledled Cymru.

Ffigur 3 - adroddiad y Gymru y mae arnom ei Heisiau (2015)



**Mabwysiadwyr Cynnar**

Yn 2014 datblygodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru raglen waith ar gyfer awdurdodau oedd yn Fabwysiadwyr Cynnar a recriwtiodd 14 awdurdod i edrych i mewn i ffyrdd y gallai'r Bil, fel yr oedd ar y pryd, effeithio ar eu gwaith.

Comisiynwyd Netherwood Sustainable Futures a PWC i gynorthwyo 13 awdurdod a datblygu gweithgaredd Cymru gyfan a TYF i gynorthwyo Cyngor Sir Fynwy. Roedd yr awdurdodau oedd yn Fabwysiadwyr Cynnar yn cynnwys: Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Abertawe, Torfaen, Bro Morgannwg, Wrecsam a thri Pharc Cenedlaethol Cymru, sef Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri.

Nod y rhaglen oedd datblygu cefnogaeth bwrpasol ar gyfer pob un o'r awdurdodau hyn a datblygu 5 maes o weithgaredd Cymru gyfan - offeryn diagnostig, modiwlau hyfforddi aelodau, gwybodaeth i swyddogion, webinar ar ddefnyddio datblygu cynaliadwy yn flaenllaw wrth reoli, a datblygu gwefan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyfeirio at adnoddau ar gyfer awdurdodau oedd yn ymateb i'r Ddeddf. Mae'r rhaglen wedi defnyddio oddeutu 200+ o swyddogion ac aelodau dros gyfnod o 9 mis.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yma: http://www.wlga.gov.uk/well-being-of-future-generations-act-early-adopter-resources-and-materials/


**Siarter Datblygu Cynaliadwy**

Er bod y Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar amrywiaeth o gyrff cyhoeddus penodol i gyfrannu i'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru, gall llawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan gynnwys cymunedau eu hunain, chwarae rôl bwysig.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Siarter

**Breakdown of signatories by sector**


There are 187 Private sector signatories, 39 Public sector signatories and 65 Voluntary sector signatories.




Datblygu Cynaliadwy wedi parhau i dyfu, fel bod, erbyn diwedd Mawrth 2015, dros 290 o sefydliadau wedi ei arwyddo; twf o bron i draean dros y flwyddyn. Mae oddeutu dwy ran o dair o'r rhwydwaith yn

dod o'r sector preifat, gyda'r gweddill yn cynnwys cyrff yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Er bod twf y Siarter yn duedd gadarnhaol, un mantais sylweddol o fod yn aelod yw'r gefnogaeth a ddarperir i ddatblygu heriau sefydliadol y mae tîm cefnogi'r rhwydwaith yn Cynnal Cymru yn craffu arnynt. Mae'r trylwyredd hwn yn gymorth i gyrff cyhoeddus baratoi ar gyfer y dyletswyddau fydd yn dod arnynt dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac mae'n galluogi cyrff yn y sector preifat a'r trydydd sector i alinio eu gweithgareddau ag egwyddorion ac ysbryd y Ddeddf.




Location of Signatories February 2015

At hynny mae cymhariaeth cydweithiwr a chydweithiwr rhwng aelodau yn eu galluogi, o fewn amgylchedd cadarnhaol, i roi prawf ar wahanol ddulliau i wneud datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefnu ganolog iddynt.

Mae gweithgaredd cadarnhaol pellach yn ymwneud â'r heriau cydweithredol a rennir rhwng aelodau megis:

- Fareshare Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Dai Rhondda i gynorthwyo eu preswylwyr gyda chostau cynyddol bwyd.
- Cyngor Tref Llanelli, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cynefin, Cymunedau'n Gyntaf, Netherwood Sustainable Futures, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Un Llais Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect addasu i'r newid yn yr hinsawdd,
- Sefydliad Ymchwil Gwenyn yn gweithio gyda nifer o bartïon i hybu dealltwriaeth ar gyfer sgwrs ynghylch natur, bioamrywiaeth a chynaladwyedd drwy wenyn a chadw gwenyn.

Y mathau hyn o weithgareddau sydd wedi bod yn nod y rhwydwaith ers peth amser, i dynnu ar eu cryfderau gyda'i gilydd i sicrhau buddion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol er lles Cymru. Ceir yr Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar y Siarter Datblygu Cynaliadwy yn www.sd-charter.net[13]

### Bil yr Amgylchedd (Cymru)

Ochr yn ochr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod deddfwriaeth yn ei lle i gynllunio a rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd gynaliadwy a chydgysylltiedig. Wrth wneud hynny, mae'n sefydlu cyfraith arloesol ar gyfer sefydlu'r dull ecosystem arfer gorau, a gadarnhawyd gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae'r dull hwn yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae adnoddau naturiol a'u gwasanaethau yn ei darparu ar gyfer yr economi, cymunedau a'r amgylchedd, drwy ganolbwyntio ar sicrhau cadernid yr ecosystemau. Mae'r Bil hefyd yn sefydlu fframwaith cyfreithiol nid yn unig ar gyfer targedau lleihau allyriadau, ond hefyd cyllido carbon i gynorthwyo i gyrraedd y

[13] Adroddiad Blynyddol y Siarter Datblygu Cynaliadwy 2014/15, http://www.sd-charter.net/wp-content/uploads/2015/03/SD-Charter-Report-Final-for-signatories.pd

nod statudol o ostyngiad o 80% o leiaf mewn allyriadau erbyn 2050.

Wrth sefydlu fframwaith cadarn a thryloyw ar gyfer ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd, rydym yn gosod llwybr clir o fewn cyd-destun ein dyletswyddau presennol o fewn y DU a'r UE. Bydd llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio hefyd yn rhoi sicrwydd ac eglurder ar gyfer busnes a buddsoddi.

**Deddf Gynllunio (Cymru)**

Mae Deddf Gynllunio (Cymru) wedi rhoi'r cyfle i ddiwygio a symleiddio'r system gynllunio yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol modern ar gyfer system gynllunio o safon byd-eang, y gall Cymru fod yn falch ohoni. Gyda'r newidiadau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth, polisi ac arweiniad, mae'r Ddeddf yn darparu system gynllunio sy'n deg, yn gadarnhaol ei hagwedd, yn wydn ac yn gwneud datblygu priodol yn bosibl. Bydd yn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cynllunio eu cyflawni gan helpu i greu mannau cynaliadwy lle bydd gan ddinasyddion well mynediad at gartrefi o safon, swyddi a’r seilwaith y mae ar Gymru ei angen; a’r un pryd bydd yn gwella ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol pwysicaf a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae Deddf Gynllunio (Cymru) yn cyflwyno nifer o fesurau cyflenwol sydd wedi eu bwriadu i gryfhau agwedd y system gynllunio at ddatblygu cynaliadwy. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys cyflwyno pwrpas statudol ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru; gan sicrhau bod y swyddogaethau cynllunio allweddol a bennwyd dan y ddeddfwriaeth bresennol yn cael eu hymarfer yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Pan gaiff ei gyhoeddi, bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi ei strwythuro o gwmpas y nodau llesiant, gan sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn parhau i fod wrth galon y system gynllunio.

***Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd***

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, er ein bod wedi bod yn cyrraedd ein targed o 3%, rydym wedi tynnu sylw at yr angen pellach i weithredu os ydym i gyflawni ein hymrwymiadau yn y dyfodol a chwarae ein rhan yn her y newid yn yr hinsawdd. Fel rhan o'r gwaith o adnewyddu'r polisi, eglurodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol yn ei ddatganiad y blaenoriaethau ar gyfer y dull newydd hwnnw, sef

- Gyrru risg yr hinsawdd allan.
- Gyrru allyriadau i lawr.
- Gyrru Effeithlonrwydd Ynni i fyny; a
- Gyrru Ynni Carbon Isel yn ei flaen

Canolbwyntio ar Dwf Gwyrdd, mynd i'r afael â gwendid cymdeithasol a chryfhau llywodraeth er mwyn ennyn diddordeb a denu cyfranogiad.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn cryfhau ein llywodraeth drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o'r holl Nodau Llesiant, sy'n cydnabod - yn debyg i'r cyd-destun rhyngwladol - bod yr achos dros weithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn glir ac yn sylfaenol i'n ffyniant wrth fynd ymlaen ac i wytnwch y gymdeithas. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd mewn nifer o ffyrdd:

- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, wrth edrych ar y tueddiadau tebygol yn lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn y dyfodol.

Bydd angen i Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gymryd Asesiad Risg y Newid yn yr Hinsawdd i ystyriaeth, sy'n sicrhau bod ein sylfaen gwaelodol o dystiolaeth yn cydnabod y newidiadau tymor hir yn y tywydd a'r hinsawdd.

- Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus amlinellu sut y maent yn gobeithio cyflawni'r nodau a bydd rhaid iddynt gymryd yr Adroddiad Tueddiadau yn y Dyfodol ac Asesiad Risg y Newid yn yr Hinsawdd i ystyriaeth wrth baratoi a datblygu eu cynlluniau. Mae hyn yn ategu'r gofynion presennol dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, lle mae gofyn i awdurdodau sy'n Adrodd (cyrff cyhoeddus) roi sylw i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, i gynorthwyo sefydliadau i adeiladu cryfder i wynebu'r hinsawdd.[14]
- Mae'r newid yn yr hinsawdd hefyd yn rhan allweddol o swyddogaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, lle y gall y Comisiynydd roi cyngor neu gymorth i gorff cyhoeddus (sy'n cynnwys rhoi cyngor ynghylch y newid yn yr hinsawdd).

Wrth fynd ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd nid yn unig yn erbyn nodau Llesiant ond hefyd yn adrodd ar gynnydd fesul sector yn erbyn ein cyllidebau carbon drwy Fil yr Amgylchedd.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar yrru allyriadau i lawr, ynni carbon isel ac effeithlonrwydd ynni drwy ein gwaith ar Dwf Gwyrdd Cymru a'n Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni.  Am fanylion pellach ynghylch y meysydd hyn, cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, at y troedyn a'r Atodiad.

### *Adeiladu Cadernid yn wyneb yr Hinsawdd*

Er mwyn sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i addasu i hinsawdd sy'n newid, rydym wedi bod yn parhau i gyflawni ein fframwaith addasu, sy'n mynd i'r afael â gwendid yn wyneb hinsawdd sy'n newid, drwy:

- Adeiladu'r sylfaen o dystiolaeth
- Prif-ffrydio addasiad
- Cyfathrebu ynghylch effeithiau newid hinsawdd ac addasiad

Mae Asesiad Risg y Newid yn yr Hinsawdd y DU (CCRA) yn cynnig asesiad o'r risgiau posibl a'r cyfleoedd sy'n codi o'r newid yn yr hinsawdd am weddill y ganrif hon ac mae'n cael ei arwain gan Is-Bwyllgor Addasu Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r CCRA cyntaf, a gyflwynwyd yn 2012, yn gydran allweddol o sylfaen tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac fe'i defnyddir i fod o gymorth i hysbysu'r polisi ar y newid yn yr hinsawdd a datblygu Cynlluniau Addasu Sectorol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar CCRA2, fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Ionawr 2017. Bydd yn cynnwys yr agweddau newydd canlynol, yn dilyn o'r asesiad risg cyntaf:

- asesiad llawnach o'r modd y mae'r hinsawdd yn rhyngweithio â ffactorau cymdeithasol-economaidd o ran effeithio ar risg
- sut y mae/gallai effeithiau camau addasu newid lefelau risg
- sut y gallai newid yn yr hinsawdd dramor effeithio ar y DU

At hynny, mae pedwar prosiect ymchwil sydd wedi eu datblygu ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar:

[14] Paratoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid, http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/preparingpart1/?lang=en

- ddiweddariadau i ragolygon llifogydd ledled y DU
- diweddariadau i ragolygon argaeledd dŵr ledled y DU
- asesiad o effeithiau cronedig y newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd naturiol, ac
- asesiad o ddichonoldeb creu sefyllfaoedd uchel++ ar gyfer newidynnau ar wahân i godiad yn lefel y môr ac ymchwydd storm

Gan weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Is-grŵp Addasiad y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd a'n rhanddeiliaid ehangach, rydym ar hyn o bryd yn cyd-drefnu mewnbwn Cymru i CCRA2 ac eisoes wedi cynnal dau weithdy i edrych i ddechrau ar risgiau ac ymateb polisi.

Yn dilyn Datganiad y Gweinidog, er mwyn deall yn llawn effaith anghymesur y newid yn yr hinsawdd ar y rhai mwyaf agored i niwed, mae gwaith wedi cael ei wneud i wella ein dealltwriaeth ynghylch effeithiau y newid yn yr hinsawdd ar wendid cymdeithasol. Mae grŵp traws-adrannol wedi ei sefydlu i edrych ar yr effeithiau ar gyfiawnder cymdeithasol ac effeithiau dosbarthiadol llifogydd a thonnau gwres ar les pobl.

# 3. Mesur cynnydd

## 3.1. Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy

Mae ein dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a'n targedau ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn ffordd bwysig o fesur ein cynnydd yma yng Nghymru. Maent yn helpu i ddarparu strwythur y cynllun datblygu cynaliadwy presennol a chawsant eu cadarnhau pan gyhoeddwyd Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned ym mis Mai 2009 a phan gyhoeddwyd y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn 2010.

Mae'r set ddiweddaraf o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru[15], a gyhoeddwyd ar 21 Awst 2014, yn crynhoi cyfres o ddangosyddion sy'n mesur datblygu cynaliadwy ledled Cymru, gan gynnwys mewn perthynas ag iechyd, swyddi, tai, troseddau, addysg a'r amgylchedd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ar gyfer y 44 o ddangosyddion datblygu cynaliadwy, sy'n ymwneud â 29 o faterion allweddol, o'i gymharu â'r flwyddyn sail, sef 2003:

- Roedd 25 yn dangos gwelliant amlwg;
- Roedd 16 yn dangos dim neu fawr ddim newid;
- Nid oedd yr un ohonynt yn dangos dirywiad amlwg;
- Mae data annigonol neu ddim data y gellir eu cymharu ar gyfer 3.

Mae'r holl ddangosyddion a oedd yn dangos gwelliant amlwg yn 2013 wedi parhau i ddangos gwelliant amlwg yn 2014. Hefyd, mae 3 dangosydd a oedd yn dangos 'dim neu fawr ddim newid' yn 2013 wedi dangos 'gwelliant amlwg' yn 2014, sef Effeithiau ecolegol llygredd aer (asidedd), Anghydraddoldeb iechyd (marwolaethau babanod) a Dibyniaeth ar fudd-daliadau.

Nid oedd unrhyw ddangosyddion yn 2014 â statws 'dirywiad amlwg'.

| |
|---|
| Nodyn ar y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy<br><br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Mae Adran 11 o'r Ddeddf yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol y mae'n rhaid eu cymhwyso at ddiben mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant.<br><br>Bydd y dangosyddion newydd hyn yn disodli'r set bresennol o Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy. Cafodd cynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol eu cyhoeddi ym mis Hydref 2015 fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y set newydd. Mae manylion llawn yr ymgynghoriad ynghylch y set newydd o ddangosyddion i'w cael ar ein gwefan[16]. |

[15] Sut mae mesur cynnydd cenedl: Cynigion ar gyfer y dangosyddion cenedlaethol i fesur y cynnydd y mae Cymru'n ei wneud tuag at gyrraedd y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru (2015) http://gov.wales/statistics-and-research/sustainable-development-indicators/?lang=cy

[16]

## *Ôl Troed Ecolegol*

Cafodd amcangyfrif newydd o ôl troed ecolegol ac ôl troed carbon Cymru ar gyfer 2011 ei gomisiynu a'i gyhoeddi gan adeiladu ar astudiaethau blaenorol[17].

Ôl-troed ecolegol yw dangosydd sy'n dangos cyfanswm y baich amgylcheddol y mae'r gymdeithas yn ei roi ar y blaned.  Mae'n cynrychioli'r arwynebedd o dir y mae ei angen er mwyn gallu darparu deunyddiau crai, ynni a bwyd, yn ogystal ag amsugno llygredd a'r gwastraff a grëir.  Mae'n cael ei fesur mewn hectarau byd-eang. Dengys yr adroddiad diweddaraf fod lefel y defnydd yng Nghymru ar hyn o bryd yn golygu y bydd nifer o adnoddau naturiol pwysig yn lleihau yn gynt nag y gellir eu hadnewyddu ac mae hi'n mynd yn fwy a mwy anodd i'r blaned amsugno ein gwastraff.

Fel gwledydd datblygedig eraill, mae gan Gymru gyfradd defnydd llawer uwch na'r cyfartaledd byd-eang.  Wedi dweud hynny, dengys astudiaethau cymharol blaenorol fod ôl-troed ecolegol Cymru ychydig yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ac nid ydym disgwyl i hyn newid.  Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y categorïau defnydd sy'n cael yr effaith fwyaf, gan nodi'r meysydd lle gallai lleihau effaith gael y budd cyffredinol gorau.

---

17 http://gov.wales/docs/desh/publications/150724-ecological-footprint-of-wales-report-en.pdf
(Saesneg yn unig)

## 3.2. Dangosyddion y Newid yn yr Hinsawdd


***Targed Allyriadau o 3%***

Fel Llywodraeth, ein dau darged trosfwaol allweddol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru yw, yn gyntaf, lleihau allyriadau 3% yn flynyddol mewn meysydd y mae'r cymhwysedd ynddynt wedi'i ddatganoli ac, yn ail, lleihau allyriadau ar y cyfan 40% erbyn 2020.

Mae'r targed o 3% yn ymrwymiad i leihau allyriadau mewn meysydd y mae'r cymhwysedd ynddynt wedi'i ddatganoli 3% bob blwyddyn o 2011, yn erbyn llinell sylfaen o allyriadau cyfartalog dros y cyfnod 2006-2010.

Mae'r targed o 3% a'r fframwaith monitro ategol wedi cael eu datblygu er mwyn darparu mecanwaith cadarn ar gyfer tracio cynnydd yn effeithiol. Mae'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar allyriadau a'u gwirio'n golygu bod allyriadau ar gael gydag oediad o oddeutu 18 mis. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o berfformiad Cymru mewn perthynas â'r targed o 3% am y drydedd flwyddyn (2013) o adrodd ar y targed o 3%.

Y ffigwr sylfaen o ran allyriadau ar gyfer y targed o 3% yw 34.53 $MtCO_2e$[18]. Dangosir y cynnydd tuag at y targed yn erbyn y llinell sylfaen yn y graff dros y dudalen. Mae'n dangos bod yr allyriadau'n 29.46 $MtCO_2e$ yn 2013, sy'n cyfateb i ostyngiad o 14.7%




[18] Mae gwelliannau methodolegol i restr allyriadau GHG sy'n dod i'r amlwg gyda'r data ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol dros holl ddata cyfres amser y rhestr allyriadau, gan gynnwys y data sylfaen. Effaith hyn yw nad yw llinell sylfaen 2006-2010 yn gyfeirbwynt cwbl sefydlog ac y gall amrywio ychydig bob tro y caiff y rhestr allyriadau ei diweddaru.


o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Mae'r gostyngiad hwn felly'n fwy na'n targed i leihau allyriadau 3% bob blwyddyn, sy'n darged o 9% erbyn 2013.

Fel a ragwelwyd gan adroddiad y llynedd, mae allyriadau blynyddol ar gyfer 2013 wedi gostwng o'u cymharu â'r rhai yr adroddwyd arnynt ar gyfer 2012. Digwyddodd y gostyngiad hwn o -2.5% o ganlyniad i ostyngiadau ym mhob sector sydd wedi'u cynnwys yn y targed o 3%, gyda'r gostyngiadau mwyaf sylweddol yn digwydd yn y sector gwastraff (-14.5%) a'r sector cyhoeddus datganoledig .

Mae'r amcangyfrifon dros dro o allyriadau ar gyfer 2014 yn dangos bod allyriadau'n debygol o ostwng ymhellach o'u cymharu â'r rhai ar gyfer 2013. Caiff y gostyngiad hwn ei ysgogi'n bennaf gan ostyngiadau yn y trydan a gynhyrchir ar y cyd â newid yn y cymysgedd tanwydd gyda gostyngiad mewn defnyddio glo ar gyfer cynhyrchu trydan ers 2013. Mae ansicrwydd mawr yn gysylltiedig â darparu rhagolwg mewn perthynas â'r targed ar gyfer meysydd y mae'r cymhwysedd ynddynt wedi'i ddatganoli, felly ar hyn o bryd dim ond arwydd dros dro o allyriadau yn 2014 ydyw. Fodd bynnag, mae'r rhagolwg yn awgrymu ein bod yn debygol o gyrraedd ein targed o 3% ar gyfer 2014.

### *Targed allyriadau o 40%*

Mae'r targed o 40% yn ymwneud â'n nod i leihau'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru 40% erbyn 2020. Caiff y targed ei fesur o linell sylfaen ym 1990[19] pan oedd lefelau allyriadau yn 57.63 MtCO2e.




[19] Caiff y flwyddyn sail ar gyfer y targed o 40% ei chyfrifo o swm yr allyriadau ym 1990 ar gyfer carbon deuocsid, methan ac ocsid nitraidd, ac ym 1995 ar gyfer y nwyon wedi'u fflworeiddio (Hydroclorofflworocarbonau, Perfflworocarbonau a Sylffwr Hecsafflworid).


Mae'r tabl canlynol yn dangos y cynnydd mewn perthynas â'r targed, gan gynnwys y ffigyrau diweddaraf o 2013, a'r cyfraniad cymharol a wneir gan wahanol sectorau i'r allyriadau ar y cyfan. Mae'n dangos bod allyriadau yng Nghymru wedi gostwng o'r llinell sylfaen i 50.76 MtCO2e yn 2013. Mae hyn yn ostyngiad o 11.9% yn yr allyriadau ar y cyfan ers y llinell sylfaen. Mae hefyd yn dangos bod allyriadau yng Nghymru wedi codi 10.3% yn 2013 o'i gymharu â 2012, a hynny'n bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn allyriadau o'r sector haearn a dur yn sgîl aildanio Ffwrnais Chwyth Rhif 4 Gwaith Dur Tata ym Mhort Talbot ym mis Chwefror 2013, a newid o ddefnyddio nwy naturiol i ddefnyddio glo mewn gorsafoedd trydan.

Fel a ddangosir yn y graff isod, mae'r duedd mewn perthynas â'r targed o 40% felly'n dal i fod yn llai na'r gostyngiad rhagamcanol sy'n ofynnol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd allyriadau yn 2014 yn gostwng -9.3% gan ddod â'r allyriadau yn agos at y lefelau a gofnodwyd yn 2012.

O ganlyniad i'r cynnydd diweddar hwn, pan gaiff ei osod ar sail gymharol â gwledydd eraill y DU, mae'r gostyngiad mewn allyriadau ar y cyfan yng Nghymru ers y llinell sylfaen yn fwy o ostyngiad na gwledydd eraill y DU[20] ac yn fwy o ostyngiad na chyfartaledd y DU, fel a ddangosir yn y graff isod.

## Adrodd ar Ddefnydd

Fodd bynnag, er mwyn cael dealltwriaeth well am gynnydd mae hefyd yn bwysig nodi, fel allforiwr net ynni, bod yr holl allyriadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a phuro ynni yng Nghymru o fewn y targed ar gyfer gostyngiad o 40% mewn allyriadau, er





[20] Nid yw'r graff yn cynnwys morgludiant a hedfan rhyngwladol o'r rhestr allyriadau yn ôl ffynhonnell a gyhoeddwyd ar gyfer yr Alban er mwyn gallu cymharu cwmpas allyriadau rhwng gweinyddiaethau datganoledig.

gwaethaf y ffaith bod peth o'r ynni'n cael ei ddefnyddio mewn gwledydd eraill. I gymharu felly, os yw allyriadau'n cael eu haseinio ar sail defnydd gan ddefnyddwyr terfynol, yna mae gan Gymru gyfran is o allyriadau'r DU[21] ac mae wedi cyflawni gostyngiad mwy mewn allyriadau - -30% ers 1990 – o'i gymharu â'r gostyngiadau a gyflawnwyd ar sail cynhyrchu neu ar sail diriogaethol. Caiff hyn ei amlygu yn y graff canlynol sy'n cymharu allyriadau Cymru â gweddill y DU.

Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'r cynnydd tuag at y targed o 40% yn amlygu'r ffaith bod angen camau gweithredu pellach sylweddol, nid dim ond er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targed erbyn 2020 ond i liniaru risgiau'r newid yn yr hinsawdd a chyflawni ein hymrwymiad hirdymor i leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050.

Ar draws adrannau Llywodraeth Cymru mae camau gweithredu'n cael eu cymryd, i leihau allyriadau a pharatoi ar gyfer newidiadau hinsoddol sydd eisoes yn anorfod o ganlyniad i allyriadau hanesyddol. Isod ceir crynodeb o gamau gweithredu a gymerwyd gan sectorau Llywodraeth Cymru trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf.

O ran dadansoddi yn ôl sectorau, mae pob sector wedi lleihau ei allyriadau ers y llinell sylfaen. I gael mwy o wybodaeth am gynnydd gan sectorau gweler Atodiad 2.




21 7.2% o'i gymharu â 9.0% yn ôl ffynhonnell.

## Atodiadau

### Atodiad 1 – Enghraifft o weithgarwch allweddol a gyflawnir

Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i fwriadu i roi trosolwg gynhwysfawr o weithgarwch gan Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, mae'n amlygu enghreifftiau allweddol o weithgarwch mewn perthynas â datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd yn erbyn y strwythur a ddarperir gan drefniadau adrodd y Rhaglen Lywodraethu.

**Twf a Swyddi Cynaliadwy**

Mae cynaliadwyedd yn ganolog i brosesau llunio polisïau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwneud iddo ddigwydd, trwy ddeddfwriaeth, polisïau a phrosiectau ynni adnewyddadwy a seilwaith pwysig sydd eisoes wedi'u sefydlu i sicrhau ein newid i economi carbon isel a'i alluogi i ddigwydd. Ein rôl ni fel Llywodraeth Cymru yw creu'r amodau gorau posibl i fusnesau gyflawni twf cynaliadwy, trwy bolisïau a chyflawni. Mae gan Gymru fantais sylweddol o ran adnoddau naturiol a phrofiad hir o gynhyrchu ynni ar raddfa fawr sy'n dyddio'n ôl i'r oes ddiwydiannol.

Ein nod yw creu newid sylweddol mewn buddsoddiadau gwyrdd ar draws pob sector yn ein heconomi. Mae a wnelo nid dim ond â thwf yn sector yr amgylchedd ac ynni, ond hefyd â chreu mwy o effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ar draws ein heconomi eang. Mae ein gweledigaeth hefyd yn ddibynnol ar amgylchedd ffisegol ac economaidd sy'n gadarn yn wyneb newidiadau megis lleihau'r gwastraff a ddefnyddir gennym, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chefnogi ein diwydiant pren. Mae'r bennod ganlynol yn nodi ymdrechion Llywodraeth Cymru o ran datblygu sgiliau, caffael, a chymorth i'r economi wledig trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

**Twf Gwyrdd**

Ystyr hyn yw twf economaidd sydd hefyd yn dwyn llewyrch a thegwch cymdeithasol <u>ac</u> yn sicrhau defnydd ystyriol o'n hadnoddau naturiol fel eu bod yn gallu parhau i'n cynnal. Mae Llywodraeth Cymru yn gwthio am fwy o uchelgais trwy weithio gyda'n Diwydiannau Ynni-ddwys i'w cynorthwyo i ganfod mesurau a chymhwyso arferion ariannu arloesol i leihau allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd ynni.

Mae ein gwaith wedi'i fwriadu i sefydlu'r cyllid, y cymorth, yr arferion arloesol, y sgiliau a'r ddeddfwriaeth i ysgogi Twf Gwyrdd ac rydym eisoes wedi neilltuo £5 miliwn i ddatblygu Twf Gwyrdd Cymru. Mae Twf Gwyrdd Cymru yn

datblygu cyflenwad o brosiectau sy'n cwmpasu ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau ac ynni o wastraff, gyda'r bwriad o godi lefelau sylweddol o arian preifat i gefnogi'r prosiectau hynny. Bydd y prosiectau hyn yn darparu cyfleoedd newydd i fusnesau yng Nghymru ac yn diogelu ac yn creu swyddi.

Rydym yn gweithio ochr yn ochr â busnesau mewn ffyrdd ymarferol i gefnogi eu twf, megis adnabod bylchau mewn sgiliau a rhoi cymorth i ddatblygu sgiliau; creu rhwydweithiau buddiol ar gyfer diwydiannau; cefnogi cadwyni cyflenwi cryf; mentrau clwstwr; ariannu rhaglenni arloesol ac ymchwil a datblygu; hwyluso datblygiad seilwaith ac eiddo; adnabod cyfleoedd o ran recriwtio a lleoliad eiddo a mwy.

**Twf Gwyrdd ar draws ein Sectorau Busnes**
Er mwyn newid i economi carbon isel mae'n rhaid wrth fusnesau, cynnyrch, technolegau a gwasanaethau arloesol. Felly rydym yn cynyddu ein buddsoddiad mewn ynni a'n buddsoddiad amgylcheddol i'r eithaf ac yn cefnogi busnesau y mae eu harferion arloesol yn tanategu'r twf cynaliadwy hwn yn ariannol ac yn eu cynorthwyo i recriwtio a datblygu gweithlu medrus. Er mwyn cefnogi twf busnes cynaliadwy mae gennym y cyfraddau uchaf o ran cymorth ariannol sydd ar gael yn y DU o fewn yr hyn a ganiateir gan reolau'r Undeb Ewropeaidd ac, yn ystod 2014-2020, bydd dros £2bn o gyllid Ewropeaidd yn cael ei fuddsoddi ar draws Cymru mewn seilwaith; ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni; sgiliau, ymchwil ac arloesi.

Gall ein cyfres hyblyg o becynnau ariannol helpu gyda chostau prosiectau, o gael gafael ar eiddo i recriwtio pobl allweddol, o fuddsoddiad cyfalaf i ymchwil a datblygu sy'n gallu troi cysyniadau'n gynnyrch i'w gyflwyno i'r farchnad. Rydym yn gweithio i helpu busnesau i gael mynediad at gyfleoedd ehangach i gael cyllid o gronfeydd y DU a'r UE, megis rhaglen Horizon 2020 yr UE a rhaglenni ymchwil Innovate UK, neu i gydweithio ar draws ffiniau trwy Raglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn amcanu at fuddsoddi dros £140m mewn ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni ledled Cymru, gan gynnwys £75m i ddatblygu ynni'r môr a thua £60m i dyfu ein capasiti ymchwil mewn ynni carbon isel.

Rydym yn gweld buddsoddiadau mawr gan gwmnïau tramor yng Nghymru, megis RWE a Vattenfall, sy'n defnyddio'r asedau hyn i ddatblygu ffynonellau ynni cynaliadwy. Mae'r buddsoddiadau hyn yn creu niferoedd mawr o swyddi yn yr ardal leol yn y cam adeiladu cychwynnol a'r broses barhaus o weithredu a chynnal a chadw tyrbinau gwynt.

Mae Cymru'n gartref i gymysgedd eang o fusnesau dŵr sy'n amrywio o ddarparwyr cyfleustodau megis Dŵr Cymru Welsh Water i weithredwyr

cynlluniau ynni dŵr mawr gan gynnwys RWE Innogy. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd mawr hefyd yn y diddordeb mewn gweithrediadau dŵr ar raddfa fach, sef 5 MW neu lai – yn enwedig mewn meysydd megis tir fferm a datblygu cymunedol. Mae ynni'r tonnau ac ynni'r llanw mewn cam cynharach yn eu datblygiad ond mae ganddynt y potensial i gyfrannu'n sylweddol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Cyhoeddwyd dau barth arddangos newydd yn 2014 – yng ngorllewin Ynys Môn a de Sir Benfro. Hefyd, mae ein saith prif borthladd ar hyd arfordir y gogledd, y gorllewin a'r de wedi'u hofferu i gefnogi prosiectau ynni morol a phrosiectau ynni adnewyddadwy eraill trwy ddarparu arbenigedd mewn gweithrediadau, cynnal a chadw a morgludiant.

Mae adeiladu'n elfen allweddol o'n heconomi sy'n gallu cyfrannu at yr agenda twf gwyrdd. Rydym yn ymrwymedig i hybu pren fel deunydd adeiladu, yn enwedig pren o Gymru pryd bynnag y bo'n bosibl. Mae defnyddio'r deunydd hwn yn gallu creu cyfleoedd cyflogaeth o'i dyfu a'i fedi, a hefyd trwy ddefnydd terfynol mewn amrywiaeth o gymwysiadau.
Mae dull y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch o fynd ar drywydd Datblygu Cynaliadwy yn integredig, gan gefnogi busnesau yn y sector i wneud gwelliannau amgylcheddol (lleihau, ailddefnyddio (gan gynnwys ail-weithgynhyrchu a defnydd wedi'i raeadru), ac ailgylchu (gan gynnwys adfer)), sy'n ei gwneud yn ofynnol bod achos busnes yn ystyried ffactorau economaidd a fydd yn cynnal cyflogaeth yn uniongyrchol a hefyd o fewn cadwyn gyflenwi / ôl troed cyflogaeth y gweithrediad hwnnw (gan gefnogi cynaliadwyedd cymdeithasol).

Mae arloesi ar ei holl weddau'n bwysig o ran llunio'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys Cymru'n gweithio'n ddoethach a phrosiectau newydd yn ei gwneud yn ofynnol cefnogi deunyddiau uwch a'r gadwyn gyflenwi. Caiff hyn ei enghreifftio'n dda yn y diwydiannau awyrofod a modurol sy'n buddsoddi'n helaeth mewn datblygu technolegau cynaliadwy i wrthweithio dibyniaeth ar danwyddau ffosil. Mae'r ddau ddiwydiant wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella'u cymwysterau amgylcheddol eu hunain, gyda gwelliannau sylweddol yn ystod prosesau gweithgynhyrchu; gostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir, yn y deunyddiau a anfonir i safleoedd tirlenwi ac mewn Co2. Mae awyrennau heddiw'n dawelach ac yn defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon, gyda gwelliant o oddeutu 70% ers y 1970au. Mae cerbydau modur heddiw'n fwy diogel, yn fwy dibynadwy, yn cynnwys mwy o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu ac yn defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon. Mae cwmnïau gweithgynhyrchu traddodiadol megis Tata yn cydweithio'n weithredol gyda'r byd academaidd yng Nghymru i ddatblygu technolegau arloesol i roi cymorth iddynt drawsnewid. O ganlyniad, mae gwaith rhwng Tata a Phrifysgol Abertawe wedi arwain at gwmni deilliannol – BIPV Co Ltd – sydd wedi datblygu datrysiad solar ffotofoltaidd integredig newydd sydd wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer y sectorau masnachol a diwydiannol.

Mae twristiaeth yn faes arall yr adroddwyd ar ddatblygiadau cadarnhaol ynddo o ran twf gwyrdd. Mae astudiaethau wedi cael eu cynnal o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar gyrchfannau twristiaeth, allyriadau o'r diwydiant twristiaeth,

mesurau ac arferion addasu a lliniaru, ac astudiaethau achos ymarferol. Trefnwyd fod cyfres o offer gwybodaeth ac arweiniad i helpu busnesau twristiaeth i ymateb i heriau mewn ffordd gynaliadwy ar gael hefyd. Rydym yn parhau i ehangu cyngor i fusnesau trwy'r Pecyn Cymorth Twristiaeth Gynaliadwy sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ymarferol. Yn ddiweddar rydym wedi ychwanegu llyfryn ar y newid yn yr hinsawdd a fideos sector-benodol sy'n hyrwyddo arfer gorau yn y diwydiant.

**Creu cenedl gynaliadwy: prosiectau a chyfleoedd**

Mae'r newid yng Nghymru i economi carbon isel yn cynnig ystod eang o gyfleoedd masnachol wrth i'r sector preifat a'r sector cyhoeddus gydweithio i gyrraedd ein targedau. Rydym wedi cefnogi AB InBev (Bragwr) gyda phrosiect i gyflawni gostyngiad o fwy na 7,000 o dunelli mewn allyriadau CO2 dros y pedair blynedd nesaf. Mae hyn wedi cyfrannu at allu'r busnes i sicrhau 58 o swyddi ychwanegol a buddsoddiad yn eu safle yng Nghasnewydd.

Mae galw am fusnesau sy'n darparu Gwasanaethau Proffesiynol Amaethyddol, a hefyd am fusnesau gwastraff ac ailgylchu wrth i dargedau gynyddu, ac mae arnom angen arbenigwyr i redeg ein cynllun RE:FIT sy'n rhoi cymorth a chyngor effeithlonrwydd ynni i fusnesau, ac sy'n tyfu. Mae arnom angen contractwyr i'n helpu i gyrraedd ein targedau i arbed dros £380m ar filiau ynni'r sector cyhoeddus a mwy nag 1.5m o dunelli o allyriadau carbon – ac mae'r cyfleoedd yn rhai hirdymor. Mae cynlluniau twf gwyrdd *Buddsoddi i Arbed* eisoes wedi arwain at fuddsoddi £20m mewn prosiectau gan gynnwys gosod goleuadau stryd newydd, goleuadau LED mewn gorsafoedd tân ac ysbytai a gosod systemau gwresogi a goleuadau newydd mewn ysgolion. Mae'r cyfleoedd hyn yn darparu llwyfan go iawn ar gyfer twf i fusnesau sy'n cyflawni'r contractau hyn; mae'r buddsoddiadau'n cael eu hailgylchu wrth iddynt gael eu had-dalu, felly mae'r £28m gwreiddiol yn gyfanswm o fwy na £120m dros 20 mlynedd.

Bydd gwaith gan Hitachi i adeiladu gorsaf niwclear newydd sy'n werth £12 biliwn ar Ynys Môn yn cael ei gwblhau erbyn canol y 2020au, ac mae'n cynnwys ymrwymiad i sicrhau bod 60% o werth y prosiect yn cyrraedd cyflenwyr brodorol a mewnfuddsoddwyr. Mae oes weithredol ragamcanol yr orsaf, sef 60 mlynedd, yn golygu y gallai contractau diogelwch, peirianneg, cynnal a chadw a chontractau eraill ddarparu sicrwydd ar gyfer twf hirdymor busnesau.

Yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau rydym hefyd yn sicrhau bod ein cymunedau'n gadarn yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Byddwn wedi buddsoddi £287m erbyn diwedd y flwyddyn hon mewn rhaglen chwe blynedd i reoli risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol er mwyn diogelu ein cartrefi a'n busnesau. Rydym yn dal i ganolbwyntio ar gynyddu cadernid sylfaenol Cymru trwy fuddsoddi mewn seilwaith gwyrdd. Rhwng 2018 a 2021 byddwn yn gwario £150m ar reoli risg arfordirol ac rydym

yn chwilio am fusnesau partner i ddarparu datrysiadau arloesol, cynaliadwy i reoli risg yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth**

Yn ogystal â darparu amgylchedd y gall busnesau ffynnu ynddo, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pwrs y wlad yng Nghymru i helpu i gefnogi canlyniadau allweddol o ran cynaliadwyedd. Gall caffael cyhoeddus wneud gwahaniaeth enfawr i lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru yn yr hirdymor ac mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn bodoli i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cyfle hwn. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn nodi'r arferion a'r camau gweithredu ym maes caffael y mae'n ofynnol i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru eu rhoi ar waith. Mae Datganiad Polisi Caffael Cymru yn diffinio caffael a gwerth am arian yn yr ystyr ehangaf un, o ran dwyn manteision nid dim ond i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, gan leihau i'r eithaf y niwed i'r amgylchedd ar yr un pryd. Cafodd Datganiad Polisi Caffael Cymru ei ddiweddaru ym mis Mehefin 2015 er mwyn sicrhau ei fod yn gwbl gyson â'r 7 egwyddor yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

I gefnogi Datganiad Polisi Caffael Cymru mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi achub y blaen o ran hybu caffael electronig gyda'i rhaglen ePS sy'n cynorthwyo sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflawni mwy o effeithlonrwydd ariannol ac effeithlonrwydd adnoddau – gan gael gwared ar bapur o'r broses a sicrhau taliadau prydlon. Mae defnyddio technoleg i ddarparu datrysiadau e-gaffael yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau ac ar yr amgylchedd. Mae'r Gwasanaeth e-Gaffael wedi helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fabwysiadu prosesau mwy effeithlon gan gynnwys gwasanaeth prynu ac ocsiynau electronig eTenderWales, gan ddwyn gostyngiad o fwy na 12 miliwn o dudalennau o bapur, sy'n cyfateb i 1375 o goed, trwy awtomeiddio cam tendro'r broses gaffael.

Rydym wedi cynorthwyo'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella canlyniadau caffael trwy biblinell contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, gan sefydlu polisi caffael Cymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn darparu contractau a fframweithiau cydweithredol ar ran y sector cyhoeddus yng Nghymru trwy'r egwyddor 'prynu unwaith i Gymru'. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn sefydlu egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru ac yn unol â hyn mae'n cymhwyso Manteision Cymunedol trwy ei weithgareddau caffael lle bynnag y bo'n bosibl, gan geisio sicrhau bod punt a gaiff ei gwario yng Nghymru yn aros yng Nghymru. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cynnal asesiadau risg cynaliadwy o'i weithgarwch caffael i sicrhau bod materion sy'n ymwneud â moeseg a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ym mhob penderfyniad allweddol ym maes caffael. Trwy ymgysylltu'n weithredol â chyflenwyr mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi sicrhau 115 o swyddi newydd yng Nghymru.

Mae Gwasanaethau Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru ei hun yn

sicrhau bod gweithgarwch caffael o fewn Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflawni yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru, gan gymhwyso'r Asesiad Risg Cynaliadwyedd i bob contract sy'n werth £25,000 a throsodd, a chan fabwysiadu dull Manteision Cymunedol ar gyfer pob contract priodol er mwyn cael y gwerth gorau posibl i Gymru.

Roedd yr achos busnes a oedd yn ategu'r penderfyniad i sefydlu **Cyfoeth Naturiol Cymru** (CNC) yn nodi'r manteision a fyddai'n cael eu cyflawni dros ei ddegawd cyntaf. Mae'r rhain bellach yn rhan annatod o brosesau cynllunio corfforaethol a chynllunio busnes CNC, gan sicrhau'r canlynol:

- *Cyflawni'n well dros Gymru:* gan alinio'i waith yn fwy eglur â blaenoriaethau Cymru, gyda datblygu cynaliadwy yn ganolog i bopeth a wnawn
- *Canlyniadau gwell i Gymru*: fel bod CNC yn rhoi cyngor cydgysylltiedig ac arweiniad mwy clir yn ei rôl fel prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ac ymgynghorai statudol
- *Gwerth gwell am arian:* Mae CNC yn disgwyl creu manteision o £158 miliwn dros ein 10 mlynedd gyntaf trwy'r cynnydd mewn effeithlonrwydd a gyflawnir trwy uno tri sefydliad.

Mae CNC wedi bod yn bartner allweddol hefyd yn y broses o ddatblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd. Mae'r gofyniad i alinio prosesau cyflawni â nodau lefel uchel eisoes yn elfen ganolog o syniadau corfforaethol CNC a'i ddull o gyflawni.

**Creu gweithlu medrus**

Mae'r Datganiad Polisi Sgiliau, sy'n cwmpasu sgiliau ôl-19 i hybu rhagolygon cyflogaeth ar draws pob sector, yn cynnwys gweithgarwch carbon isel. Ochr yn ochr â'r datganiad polisi, ceir cynllun cyflawni a fydd yn cefnogi sgiliau cynyddol ymhlith y gweithlu yng Nghymru, gan hybu rhagolygon cyflogaeth a galluoedd busnesau.

Mae ein profiad hir o gynhyrchu ynni ar raddfa fawr – mae dros 25% o nwy ac olew y DU yn cael ei gyflenwi trwy Sir Benfro – a'n cynnydd o ran gwneud ynni adnewyddadwy yn rhan o'r brif ffrwd wedi creu gweithlu profiadol, triw ac aml-sgil. Rydym yn cydweithio'n agos gyda phob sector i gefnogi'r sgiliau y mae ar gyflogwyr eu hangen ar gyfer twf gwyrdd. Yn y gorffennol, rydym wedi gweithio gyda'r Cyngor Sgiliau Sector, dau o'n mawrion ym maes ynni adnewyddadwy a chyda cholegau addysg bellach i ddatblygu'r rhaglen dair blynedd arloesol, Prentisiaeth Gwynt Graddfa Fawr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector ynni ehangach i ddeall anghenion cyflogwyr ac i gefnogi rhaglenni galwedigaethol newydd wrth i'r sector esblygol hwn ddatblygu.

**Gwella ein Hymchwil yng Nghymru ar gyfer y Dyfodol**

Rydym yn awyddus i dyfu'r capasiti ymchwil yng Nghymru a chreu rhwydweithiau sy'n dwyn ynghyd fyd diwydiant, y byd academaidd a'r

Llywodraeth. Mae canolfannau, mentrau a rhwydweithiau ymchwil presennol yng Nghymru'n cynnwys:

**Marine Energy Pembrokeshire:** Mae byd diwydiant, gan gynnwys datblygwyr technoleg a'r gadwyn gyflenwi, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus yn cydweithio i sefydlu Sir Benfro fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynhyrchu ynni morol cynaliadwy.

**Campws Arloesi a Menter Aberystwyth:** Mae'r campws, a grëwyd â buddsoddiad o £35m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn cefnogi'r fio-economi ar gyfer bwyd cynaliadwy, iechyd, biotechnoleg ac ynni adnewyddadwy.

**BEACON+:** Mae hwn, sydd hefyd wedi'i ariannu â chyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn brosiect bio-buro gwerth £12m sy'n golygu bod tair o'n prifysgolion yn gweithio gyda byd diwydiant i ddatblygu deunyddiau, tanwyddau a chemegolion adnewyddadwy.

**Y Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS):** Mae IBERS, canolfan ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn gweithio ar brosiectau cynaliadwyedd gan gynnwys technolegau biodanwydd a chynhyrchu bwyd.

**Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni (ESRI):** Mae'r Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni a gwblhawyd yn ddiweddar ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithio ar botensial ynni adnewyddadwy morol, ynni'r llanw, ynni niwclear ac ynni nwy anghonfensiynol, gan gydweithio gyda phartneriaid diwydiannol ac academaidd.

**Sêr Solar:** Mae Prifysgol Abertawe yn ymchwilio i effeithlonrwydd, fforddiadwyedd a hirhoedledd celloedd solar ffotofoltaidd, gan gynnwys technoleg solar y gellir ei hargraffu ar fetelau.

**Y Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol ar gyfer Ynni Carbon Isel a'r Amgylchedd** [NRN – LCEE]: Mae ein menter Sêr Cymru, sy'n werth £50m, i ddatblygu gallu ymchwil Cymru wedi sefydlu cadeiryddion ymchwil a rhwydweithiau ymchwil cenedlaethol gan gynnwys NRN-LCEE, sy'n dwyn ynghyd bump o'n chwe phrifysgol, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Arolwg Daearegol Prydain yng Nghymru, a Swyddfa Dywydd y DU.

**Sêr Cymru 2:** Mae'r rhaglen hon yn sefydlu ffrwd o ymchwilwyr sydd ar adeg gynnar yn eu gyrfaoedd neu ar ganol eu gyrfaoedd a fydd yn ymuno â'r timau o arbenigwyr academaidd ledled Cymru, a fydd yn cynnwys nifer o Athrawon sy'n gweithio ym meysydd peirianneg, gweithgynhyrchu a thechnoleg amgylcheddol.

**Canolfan Peirianneg Moduron a Systemau Pŵer (CAPSE):** A hithau wedi'i lleoli ym Mhrifysgol De Cymru, mae CAPSE yn ganolfan ymchwil, datblygu, profi ac ardystio annibynnol a gydnabyddir yn rhyngwladol sydd ag enw am weithgareddau ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth sydd ar flaen y gad o fewn y sectorau peirianneg moduron a systemau pŵer uwch.

**Canolfan Ymchwil ac Arddangos Hydrogen:** Mae'r Ganolfan hon, a ddatblygwyd gan Brifysgol De Cymru ac a ran-ariennir â chyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, wedi'i lleoli yng Ngwaith Ynni Baglan ac mae'n ganolbwynt ar gyfer gwaith ymchwil, datblygu ac arddangos newydd ym maes technoleg ynni hydrogen yng Nghymru. Cafodd y Ganolfan Hydrogen ei chefnogi gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Llywodraeth Cymru.

**Courtauld 2025:** Mae WRAP Cymru (rhaglen weithredu'r cynllun gwastraff ac adnoddau) wrthi'n datblygu ymrwymiad newydd ar draws y diwydiant cyfan o'r fferm i'r fforc gan adeiladu ar waith Ymrwymiad Courtauld: y Fforwm Cynaliadwyedd Cynnyrch a Chytundeb y Gwasanaeth Lletygarwch a Bwyd. Bydd Courtauld 2025 yn helpu defnyddwyr i leihau gwastraff bwyd y gellir ei osgoi yn y cartref, ac yn annog busnesau i rannu arbedion effeithlonrwydd ar hyd cadwyni cyflenwi, gwastraffu llai a chael mwy o werth o wastraff y gellir ei osgoi a chynyddu cadernid busnesau.

**Arloesi Bwyd Cymru:** Mae'r fenter hon yn dwyn ynghyd dair canolfan ragoriaeth bwyd sy'n ymroddedig i roi anogaeth i ddatblygu'r sector bwyd a rhoi cymorth technegol a gweithredol mewn perthynas â phob agwedd ar gynhyrchu bwyd. Mae'r canolfannau bwyd yn darparu asgwrn cefn strategol ar gyfer datblygiadau technegol a datblygu cynnyrch newydd mewn busnesau yng Nghymru. Maent yn darparu gwasanaeth unigryw yn y DU, mewn perthynas ag ystod o faterion technegol, gan gynnwys BRC, SALSA, cyngor ynghylch labelu, oes ar y silff a deunydd pacio a.y.b.

**Yr Arloesfa:** Cwmni cyfyngedig preifat yw hwn sy'n eiddo i Weinidogion Llywodraeth Cymru ac sy'n gweithio gyda chwmnïau technoleg ddigidol i gynyddu cyllid ar gyfer arloesi yng Nghymru a chyflawni gweithgarwch arloesi technolegol i greu twf cynaliadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mentrau Dinas Ddeallus a ffrydiau ariannu Horizon 20:20.

**SPECIFIC** (Y Ganolfan Beirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol): Prosiect arloesol yw hwn sydd wedi'i fwriadu i helpu i drawsnewid adeiladau yn gyfleusterau sy'n cynhyrchu trydan. Fe'i harweinir gan Brifysgol Abertawe, a nod y prosiect yw masnacheiddio technolegau a fydd yn galluogi adeiladau i gynhyrchu, storio a rhyddhau eu hynni eu hunain. Mae'r prosiect partneriaeth hwn yn cynnwys grwpiau prifysgol blaenllaw, Busnesau Bach a Chanolig a busnesau rhyngwladol gan gynnwys Tata Steel, BASF a Pilkington. Mae'r prosiect wedi ysgogi cyllid sylweddol o ffynonellau yn y DU a'r UE ac yn amlygu'r datblygiadau ymchwil a thechnolegol hynod arloesol sy'n digwydd yng Nghymru.

**Spearhead Science Wales:** Bydd y rhaglen hon yn ceisio datblygu 'cyflenwad' o ymchwilwyr rhagorol sydd ar ganol eu gyrfaoedd. Bydd y rhaglen yn cynorthwyo prifysgolion i recriwtio a datblygu 'sêr addawol' y dyfodol, ac yn rhoi'r cyllid ategol y mae ei angen arnynt i gynyddu potensial eu hymchwil i'r eithaf. Prif bwyslais y rhaglen yw gwella gallu ymchwil yng Nghymru er mwyn galluogi'r wlad i gystadlu'n gryfach byth ar y llwyfan byd-eang.

**Effeithlonrwydd Ynni**

Cafodd gwasanaeth Cymru Effeithlon ei lansio ym mis Hydref 2014 i sicrhau bod cwsmeriaid domestig, busnesau, cymunedau a'r trydydd sector, y sector preifat a'r sector cyhoeddus yn gallu cael amrywiaeth o wybodaeth, cyngor a chymorth ar fesurau megis defnyddio ynni'n fwy effeithlon, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, defnyddio dŵr yn fwy effeithlon a lleihau'r holl fathau o wastraff a gynhyrchir.

Yn ystod ei flwyddyn gyntaf, (Hydref 2014 - Hydref 2015), gwnaeth y gwasanaeth roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i:

- 2,789 o aelwydydd
- 122 o grwpiau cymunedol
- 627 prosiectau sy'n seiliedig ar fusnesau
- 14 o brosiectau yn y trydydd sector
- 194 o brosiectau yn y sector cyhoeddus.

O ganlyniad, amcangyfrifir y bydd modd sicrhau arbedion oes gyfan o 295,130 o dunelli o CO2e a sicrhau arbedion gwerth £36,677,033.

Mae Cymru'n ymrwymedig, trwy Tuag at Ddyfodol Diwastraff, strategaeth gwastraff Cymru, i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol o'r sector gwastraff – trwy ddargyfeirio gwastraff bioddiraddadwy o safleoedd tirlenwi i gyfleuster ailgylchu, compostio neu dreulio anaerobig a chynorthwyo busnesau ac eraill i reoli gwastraff. Gan hynny, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o wastraff wedi gostwng bob blwyddyn rhwng 2009 a 2012 ac mae cyfanswm y gostyngiad yn 258 000 o dunelli dros y cyfnod hwn.

Mae'r Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff yn helpu i fynd i'r afael â fforddiadwyedd y seilwaith gwastraff cynaliadwy yng Nghymru. Nod y rhaglen gyfalaf, a gyflawnir trwy bartneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, yw cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu capasiti trin digonol i gyrraedd targedau'r UE ar gyfer arallgyfeirio o safleoedd tirlenwi a thargedau ailgylchu cenedlaethol statudol (70% erbyn 2025). Mae cyfraniadau tuag at ganlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn cynnwys:

- creu swyddi mewn economi gwyrdd sy'n tyfu trwy fwy o ailgylchu a datblygiadau cysylltiedig o ran seilwaith, er enghraifft adeiladu gwaith treulio anaerobig ym Mryn Pica, ger Aberdâr, yn ystod 2014/15;

- ymrwymiad i gynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn mentrau ailgylchu ac mewn arferion gwell o ran rheoli adnoddau;

- cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gweddillion treuliad anaerobig o ansawdd uchel, gyda'r potensial ar gyfer rhwydweithiau gwresogi ardal ar raddfa fawr.

Cyflawnwyd arbedion maint sylweddol trwy'r gwaith ar y cyd rhwng 21 o awdurdodau lleol mewn consortia rhanbarthol, tra bo perthnasoedd cryf rhwng rhanddeiliaid yn sicrhau cydweithio agos ar draws adrannau'r Llywodraeth, megis gwastraff, cyllid a chynllunio. Hyd yn hyn, cyflawnwyd dros £500m mewn arbedion refeniw o'i gymharu â'r rhagolygon ar gyfer costau yn y dyfodol. Caiff ymgysylltiad â'r cyhoedd a'r cyfryngau lleol a chenedlaethol ei gefnogi gan y Cynllun Craff am Wastraff.

Gyda WRAP Cymru, Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau, rydym wedi datblygu offer cymorth ariannol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (BBChau). Bydd y rhain yn helpu busnesau yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth, gwasanaeth bwyd a gweithgynhyrchu bwyd a diod gyda chost offer ac ymgynghoriaeth atal gwastraff neu ailgylchu.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i unrhyw fusnes sy'n ceisio cymorth ymrwymo i'n hegwyddorion *Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol* sy'n cynnwys ymrwymiad i arferion cyflogaeth da, megis trefniadau gweithio hyblyg i roi anogaeth i greu swyddi sy'n hygyrch i rieni a gofalwyr eraill. Mae'r ddogfen fframwaith Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a'r parth gwe Busnes Cyfrifol yn hyrwyddo arfer gorau ac astudiaethau achos, ynghyd â modiwl ar-lein rhyngweithiol ar Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Anogir sefydliadau i ddatblygu eu hegwyddorion Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol trwy lofnodi Siarter Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a rhaglen gwaith ac iechyd 'Cymru Iach ar Waith'. Mae aelodau'r Siarter yn dod yn rhan o rwydwaith o sefydliadau sy'n rhannu arfer gorau o ran hybu datblygu cynaliadwy, tra bo Cymru Iach ar Waith yn cefnogi camau gweithredu i wella iechyd a llesiant yn y gweithle.

Mae Busnes Cymru yn darparu nifer o astudiaethau achos busnes[22] i ddangos y manteision i gwmnïau os ydynt yn gweithredu ac yn cynllunio gweithgarwch busnes cyfrifol; mae'r rhain yn cynnwys AB Glass Windows & Doors, Castell Howell Foods, UES Energy, Crystal, Sony Technology a Toyota.

Mae Grŵp Admiral ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Rhaglen Cyflogi Pobl ag Awtistiaeth mewn Cwmnïau Angori gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cynlluniau ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Hyd yma maent

[22] https://businesswales.gov.wales/cy/astudiaethau-achos

wedi gweld llwyddiant o ran newid agweddau'n fewnol ac o ran cyflawni nifer fach o leoliadau gwaith ar gyfer unigolion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig. Mae nifer o gwmnïau wedi dangos diddordeb yn y Rhaglen Cyflogi Pobl ag Awtistiaeth mewn Cwmnïau Angori hefyd.

Hefyd mae Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned fusnes a hyrwyddo gofal plant a pholisïau sy'n ystyriol o deuluoedd fel rhan o'r strategaeth economaidd ehangach. O ran cyflawni camau gweithredu dan y Cynllun, rydym ar hyn o bryd yn:

- Cefnogi busnesau gofal plant ledled Cymru trwy roi cyngor a chymorth busnes mewn ardaloedd lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth.
- Rhoi cyngor i fusnesau ynghylch manteision ac ymarferoldeb mabwysiadu polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.
- Cefnogi darparwyr gofal plant presennol mewn ardaloedd peilot, Gwynedd a Blaenau Gwent, gydag ystod o wasanaethau cymorth i fusnesau a ddarperir gan Busnes Cymru.

Ym mhrosiect peilot Blaenau Gwent mae ymgynghorydd sydd wedi'i neilltuo gan Busnes Cymru yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol a busnesau gofal plant lleol i roi cymorth iddynt adnabod gofynion penodol o ran cymorth busnes, ac o ganlyniad bydd nifer o weithdai cymorth busnes yn cael eu darparu ar gyfer y sector gofal plant, ac yng Ngwynedd mae digwyddiad cymorth i fusnesau gofal plant yn cael ei gynllunio gyda chymorth Busnes Cymru.

**Cefnogi'r Seilwaith**

Mae seilwaith yn sylfaen ar gyfer twf economaidd cynaliadwy. Mae gridiau pŵer, systemau dŵr a charthffosiaeth, systemau trafnidiaeth a rhwydweithiau cyfathrebu effeithlon, cadarn yn hanfodol i economïau a chymdeithasau modern. Rydym yn cynorthwyo byd diwydiant a'r byd academaidd i ddatblygu, profi a lansio cynnyrch newydd a thechnolegau arloesol a mwy deallus ac rydym wedi parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf. Mae Cyflawni Cymru Ddigidol, sy'n pennu'r fframwaith strategol ar gyfer cyflawni rhaglen Cyflymu Cymru, yn cynnwys hybu cymdeithas gynhwysol, gynaliadwy a ffyniannus fel amcan allweddol. Mae gan Cyflymu Cymru y potensial i wella'r amgylchedd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn anad dim allyriadau sy'n gysylltiedig â chludiant, gan fod TGCh well yn gallu lleihau'r angen i deithio. Mae gweithredu Cyflymu Cymru yn cynnwys mesurau i liniaru ac addasu i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd – trwy weithredu System a Chynllun Rheolaeth Amgylcheddol – ynghyd â Strategaeth Carbon Isel i helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o waith ar y seilwaith band eang i'r eithaf.

Mae lleihau allyriadau'n un o elfennau allweddol ein dull o gyflawni system drafnidiaeth wirioneddol integredig i Gymru. Mae datblygu prosiectau allweddol a amlygir yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, megis y cynllun Metro, yn gyfle i fusnesau ddatblygu dull

arloesol o fynd ar drywydd trafnidiaeth carbon isel a chynyddu newid moddol i gludiant cyhoeddus. Gallai'r gwaith ar gyflawni cam nesaf system Metro fodern o ansawdd uchel i ddarparu cludiant cyhoeddus ar gyfer de ddwyrain Cymru ddechrau mor gynnar â 2017. Amcangyfrifir y bydd yn costio £500 - £600 miliwn, a bydd yn diwallu anghenion cynyddol Prifddinas Caerdydd o ran cludiant cyhoeddus.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau anariannol i gerbydau trydan yng Nghymru, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Llywio Arbenigol ar gyfer Cerbydau Carbon Isel i gynghori ynghylch ymyriadau allweddol sy'n ofynnol er mwyn hybu defnydd o gerbydau carbon isel yng Nghymru, gan gynnwys rhai trydan. Disgwylir i'r Grŵp adrodd yr hydref hwn gyda nifer o argymhellion ariannol ac anariannol.

**Cefnogi economi wledig Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth i sicrhau, yng Nghymru, bod y *Polisi Amaethyddol Cyffredin* yn parhau i danategu'r strwythurau ariannol sy'n gwbl hanfodol ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy, ffyniannus. Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn bolisi hirsefydlog sy'n darparu buddsoddiad o filiynau lawer o ewros yng Nghymru wledig bob blwyddyn. Mae iddo ddwy brif elfen – 'Colofnau' – sy'n offer ategol i'w defnyddio gyda'i gilydd fel modd i ddatblygu diwydiant amaethyddol ac economi wledig ffyniannus. Mae Colofn 1 (Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr) yn cefnogi busnesau ffermio. Mae Colofn 2 (y Rhaglen Datblygu Gwledig) yn rhoi cymorth ar gyfer hyfforddiant a chyngor i fusnesau ffermio, cymorth ar gyfer arferion ffermio sydd o fudd i'r amgylchedd, cymorth ar gyfer prosesu ac ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol a choedwigol, a chymorth gyda datblygu economaidd mewn cymunedau gwledig. Ar y cyd, diben y Polisi Amaethyddol Cyffredin yw helpu'r diwydiannau ffermio a choedwigaeth a Chymru wledig i ymateb i'r heriau/cyfleoedd a wynebir, cryfhau cadwyni cyflenwi, a sicrhau dull mwy integredig sy'n well i'r amgylchedd naturiol.

O bryd i'w gilydd mae'r UE yn diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin sy'n berthnasol i Gymru gan ei bod yn rhan o'r DU sy'n un o Aelod-Wladwriaethau'r UE. Caiff y diwygiadau eu rhoi ar waith gan reoliadau y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu mabwysiadu. Mae rhai o'r darpariaethau yn y rheoliadau'n orfodol ac mae eraill yn ddewisol. Bu oedi gyda'r cylch diweddaraf o ddiwygiadau a byddant yn cychwyn yn awr yn 2015. Yn ystod y broses o benderfynu ynghylch yr hyn a fydd yn gweithio orau i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarferion ymgynghori helaeth dros y pedair blynedd ddiwethaf ar gyfer Colofn 1 a Cholofn 2 o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r rheiny'n cynnwys cyrff sy'n rhanddeiliaid a'r diwydiant. Mae gwaith ymgynghori wedi cynnwys digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid a chyfarfodydd cyhoeddus gyda'r nos gyda'r Gweinidog. Mae gwaith datblygu wedi cael ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru gan roi ystyriaeth i wahanol feysydd polisi ac ystod eang o nodau.

Mae Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 yn nodi uchelgais i dyfu sector bwyd a diod Cymru 30% yn 2020 i drosiant o £7 biliwn ar gyfer y diwydiant. Mae'n canolbwyntio ar gyflawni swyddi, twf a chyfoeth er budd ein holl gymunedau yng Nghymru. Mae'r weledigaeth yn un o dwf gwyrdd lle mae busnesau'n gweithredu fel ceidwaid ein hadnoddau naturiol, busnesau sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol, a chynhyrchu bwyd sydd o safon uchel ac yn ddiogel i sicrhau gwelliannau i iechyd a bywiogrwydd pobl Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau bwyd a diod yng Nghymru ar y manteision cystadleuol y gall defnyddio ynni'n effeithlon eu dwyn. Bydd hyrwyddo Cymru fel gwlad cynhyrchu bwyd carbon-isel trwy gyfeirio busnesau'n effeithiol at ddarparwyr gwasanaethau amgylcheddol yn lleihau ôl troed carbon busnesau yng Nghymru, yn gwella cymwysterau amgylcheddol cynnyrch o Gymru ac yn hybu gwerthiant yn unol â'r nod cyffredinol i dyfu'r sector 30% i £7 biliwn erbyn 2020. Rydym yn rhoi anogaeth weithredol i gwmnïau bwyd ledled Cymru ymrwymo i Cymru Effeithlon, er mwyn cael mantais gystadleuol a defnyddio ynni, gwastraff a dŵr yn fwy ystyrlon ym maes gweithgynhyrchu/adwerthu bwyd.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru, trwy gynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-14, ddarparu cyllid i roi cymorth i ddatblygu'r Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd sy'n darparu dull asesu ar-lein syml i fusnesau bwyd fesur eu cyfraniad at dwf cynaliadwy. Gellir defnyddio'r pecyn cymorth i bennu llinell sylfaen cynaliadwyedd ar gyfer cwmni; i adnabod camau sy'n flaenoriaeth a chamau a ffafrir; ac i ddangos tystiolaeth o arfer da.

**Coetiroedd i Gymru**

Mae polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru, "Coetiroedd i Gymru", yn manylu ar y cyfraniad y gall coetiroedd a choed ei wneud i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau o ran lleihau allyriadau carbon. Rhagfynegir y bydd coetiroedd yng Nghymru'n ddalfa net ar gyfer carbon atmosfferig ac amcangyfrifir mai tuag 1,419,000 o dunellau'r flwyddyn yw'r gyfradd bresennol o ran dal a storio carbon o goetiroedd (Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2014/15).

Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn cynnwys dyhead i greu 100,000 hectar (ha) o goetiroedd newydd rhwng 2010 a 2030 fel ffordd i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau o ran lleihau allyriadau carbon.

Roedd y dyhead yn golygu ei bod yn ofynnol plannu 5,000ha o orchudd coetir ychwanegol bob blwyddyn rhwng 2010 a 2030, lefel uwch o blannu nag a gyflawnwyd erioed o'r blaen yng Nghymru, gan gynnwys y gweithgarwch plannu ar raddfa fawr yn ystod y 1950au a'r 1960au. Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith gan ADAS i adolygu'r targed o ran y newid yn yr hinsawdd. Argymhellodd ADAS fod y targed yn cael ei ostwng i darged i greu 50,000ha o goetiroedd dros 25 mlynedd hyd at 2040. Mae argymhellion y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd ac ADAS yn rhagweld lefel creu

coetiroedd sydd lawer yn uwch na'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd dros y blynyddoedd diwethaf: rhwng 2010 a 2015, crëwyd 3,203ha o goetiroedd yng Nghymru. Er mwyn rhoi anogaeth i greu coetiroedd, mae Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid uniongyrchol ar gyfer creu coetiroedd. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi anogaeth ar gyfer cydweithredu rhwng tirfeddianwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i blannu coed ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed byrdymor dros oes y "Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru", sef creu 10,000ha o goetir newydd erbyn 2020, sy'n gyfartaledd plannu coed o 2,000ha y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y newidiadau statudol a wneir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd â'r rhai a gynigir gan Fil yr Amgylchedd, gan gynnwys cyllidebu carbon, yn helpu i roi mwy o anogaeth i blannu coed yn y dyfodol ar ffurf ardaloedd bychain o goetiroedd, plannu perthi, coetiroedd cymunedol, lleiniau cysgodol a phlannu trefol i ddwyn ystod o fanteision i bobl a chymunedau yng Nghymru. Bydd y gweithgarwch plannu hwn yn darparu ar gyfer dal a storio carbon ac yn cyfrannu at dargedau Cymru o ran y newid yn yr hinsawdd hefyd.

**Gwneud y gorau o bren Cymru**

Ceir potensial sylweddol i ehangu'r defnydd o bren o Gymru mewn prosesau adeiladu i ddwyn manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol. Mae pren o Gymru'n addas ar gyfer y diben i fodloni'r rhan fwyaf o gymwysiadau adeiladu, ond mae goresgyn anawsterau hirdymor er mwyn manteisio ar y potensial hwn yn galw am gamau gweithredu cydgysylltiedig ar draws y gadwyn gyflenwi.

Yn 2014 sefydlodd Llywodraeth Cymru weithgor trawsadrannol Pren ym Myd Adeiladu i archwilio sut mae cyflymu'r defnydd o bren o Gymru ym myd adeiladu, yn enwedig adeiladu tai. Mae gan y grŵp gynrychiolaeth o Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Cyfoeth Naturiol yn ogystal â Gwerth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n cydweithio'n agos gyda Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, Partneriaeth Busnes Coedwigoedd Cymru a'r fenter Grown in Britain i ddatblygu'r cyflenwad o bren a'r galw am bren o Gymru a ddefnyddir ym myd adeiladu, gan gynnwys mynd i'r afael â hen ganfyddiadau o ran ansawdd pren o Gymru sy'n gallu bod yn rhwystr i'w ddefnyddio gan gwmnïau adeiladu ac awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r grŵp yn archwilio datblygiad prosiectau arddangos gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol sydd o faint digonol i enghreifftio'r arbedion maint ac i ganfod a all Llywodraeth Cymru bennu safonau perfformiad ar gyfer tai cymdeithasol, gan gynnwys perfformiad ynni, a fyddai'n rhoi mantais gystadleuol i systemau adeiladu pren. Ar ochr cyflenwi pren mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod y cynlluniau Glastir yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i dyfu ystod o rywogaethau coed sy'n gynhyrchiol ac yn cefnogi cynefinoedd bioamrywiol.

**Iechyd a Llesiant Pobl**

Fel cenedl rydym yn wynebu heriau hirdymor o ran gwella canlyniadau iechyd trwy sicrhau bod ansawdd a diogelwch gwasanaethau'n cael eu gwella, trwy wella mynediad a phrofiad cleifion ac atal afiechyd gwael a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Mae mynd i'r afael â'r heriau hyn yn fater o degwch a chyfiawnder cymdeithasol, ond hefyd o gydnabod y gall ein hamgylchedd a'n heconomi ddylanwadu ar iechyd. Canfuwyd fod camau gweithredu a gymerir i leihau anghydraddoldebau iechyd yn dwyn budd i gymdeithas mewn ffyrdd eraill, gan gynnwys cryfhau ein heconomi, tra bod integreiddio'r ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mewn prosesau penderfynu'n gallu helpu i ganfod manteision lluosog. Er enghraifft, mae deall y berthynas rhwng anghydraddoldebau iechyd a ffactorau eraill megis mynediad at fannau agored, cludiant a darpariaeth iechyd yn gallu darparu canlyniadau gwell i Gymru.

Mae'r bennod nesaf yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy a nodir yn y Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn y cyd-destun hwn, yn enwedig trwy ddefnyddiau ataliol o ofal iechyd a mesurau i roi cymorth i fyw'n iach, ymdrechion i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chefnogi unigolion sy'n dygymod â materion iechyd meddwl.

**Gofal iechyd darbodus**

Mae'r mudiad gofal iechyd darbodus yn ennill momentwm yng Nghymru, ac fel rhan o hynny mae'n rhaid inni weithio'n galetach i greu'r amodau sy'n gwella gallu pobl i ofalu am eu hiechyd eu hunain ac yna egluro'r cyfrifoldeb sydd gan bobl i greu amodau ar gyfer iechyd da yn eu bywydau eu hunain, gan fynd ati i bob pwrpas i 'gydgynhyrchu' iechyd da mewn partneriaeth gyda chleifion, y cyhoedd a sefydliadau partner. Mae'r angen am hyn yn amlwg. Er enghraifft, roedd Arolwg Iechyd Cymru yn 2013 yn dangos bod 58% o oedolion yn cael eu cyfrif yn bobl sydd dros eu pwysau neu'n ordew, gan gynnwys 22% o oedolion sy'n cael eu cyfrif yn ordew a bod 21% o oedolion yn ysmygu ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni nifer o ymgyrchoedd iechyd ataliol i helpu pobl i wneud newidiadau i wella'u hiechyd a'u llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys yr ymgyrch alcohol Newid am Oes; Bwyd Doeth gan gynnwys Dechrau o'r Newydd sy'n annog teuluoedd â phlant o oedran ysgol gynradd i ymrwymo i addunedau sy'n canolbwyntio ar gamau bychain tuag at fwyta'n iach a bod yn egnïol yn gorfforol; a'r ymgyrch Cychwyn Iach i godi ymwybyddiaeth o beryglon mwg ail law yn benodol mewn ceir.

Lansiwyd Newid Am Oes yn 2010 fel rhan o ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i helpu pobl i sicrhau a chynnal pwysau corff iach, i fwyta'n iach a bod yn gorfforol egnïol. Roedd ymgyrch diweddaraf Newid Am Oes, Dewis Llai Melys, yn canolbwyntio ar gynorthwyo teuluoedd â phlant rhwng 4 ac 11 oed i wneud dewisiadau iach i leihau siwgr yn nietau eu plant. Roedd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lle mae lefelau gordewdra ymhlith plant yn uwch nag yng ngweddill Cymru. Cofrestrodd dros 6,500 o

deuluoedd newydd ar gyfer yr ymgyrch Dewis Llai Melys yng Nghymru, gan ychwanegu at y 70,000 o deuluoedd a mwy sydd eisoes wedi cofrestru gyda Newid Am Oes.

**Ei gwneud yn haws byw bywydau iach**

Mae dyletswydd ar bob un ohonom i ofalu amdanom ni ein hunain – mae'n rhaid inni i gyd ddod yn geidwaid ein hiechyd ein hunain, yn hytrach na rhoi perchnogaeth ar ein hiechyd i'r gweithiwr proffesiynol agosaf fel yr ydym wedi'i wneud yn draddodiadol. Mae ein Rhaglen Ychwanegu at Fywyd yn darparu asesiad iechyd a llesiant holistaidd ar-lein a chymorth yn y gymuned i gynyddu lefelau cyfranogiad i'r eithaf.

Mae'r Rhaglen bellach yn y cam defnyddwyr ac mae gweithgareddau presennol yn canolbwyntio ar annog pobl i ddefnyddio'r wefan, yn ogystal ag integreiddio Ychwanegu at Fywyd â gwasanaethau ataliol (e.e. rhoi'r gorau i ysmygu) a phyrth iechyd ar-lein eraill megis 'Fy Iechyd Ar-lein'. Mae ystod eang o weithgareddau cyflwyno'n digwydd gan gynnwys gohebiaeth uniongyrchol at aelodau o'r cyhoedd tua'r un pryd â'u pen-blwydd yn 50 (mae tua 42,000 o bobl yn troi'n 50 bob blwyddyn yng Nghymru) os ydynt wedi cofrestru gyda'u meddyg teulu. Ers dechrau mis Hydref 2014 mae bron i 16,000 llythyr o wahoddiad wedi cael eu postio mewn sypiau bob wythnos. Ers cyflwyno Ychwanegu at Fywyd yn genedlaethol mae dros 10,500 o bobl wedi mynd at y wefan ac mae dros 5,500 o asesiadau wedi'u cwblhau.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn sefydlu fframwaith er mwyn galluogi mwy o bobl i gerdded a beicio yn hytrach na theithio mewn car. Bydd hyn yn sicrhau manteision amgylcheddol gan gynnwys gostwng lefelau llygredd aer a thagfeydd. Yn fuan iawn, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Teithio Llesol sy'n nodi mesurau ategol i gefnogi nodau'r Ddeddf. Bydd hefyd yn mynd ati i wella nifer y boblogaeth sy'n teithio'n llesol.

**Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd**

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd megis diet gwael a gofal gwael o ran iechyd y geg.

Mae'r cynllun *Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd* yn ceisio unioni anghydraddoldebau iechyd a achosir gan ddiet gwael, trwy sicrhau bod yr holl blant o oedran cynradd yn cael dechrau da i'r diwrnod. Yn ymarferol, mae'r cynllun yn darparu cyflogaeth ar gyfer yr holl oruchwylwyr sy'n bresennol ym mhob un o'r 1217 o ysgolion sy'n gweithredu clwb brecwast (yn ôl ffigyrau mis Ebrill 2015). Mae hefyd yn cyfrannu at y gymdeithas ehangach gyda budd canlyniadol o ran galluogi rhieni i ddanfon eu plant i'r ysgol yn gynharach nag y byddent wedi gallu ei wneud fel arall sydd, mewn rhai achosion, yn galluogi rhieni i ddychwelyd i'r gwaith heb ddefnyddio gwasanaethau gofal plant costus. Mae'r cynllun brecwast yn ceisio sefydlu arferion bwyta'n iach pan fo plant yn ifanc, gyda'r disgwyliad y byddant yn parhau â'r arferion hyn pan

fyddant yn oedolion. Mae cydberthynas rhwng ymagwedd iach at faethiad – gan gynnwys peidio â mynd heb frecwast – ac iechyd gwell ar y cyfan, a dylai olygu bod llai o adnoddau'r GIG yn cael eu defnyddio o ganlyniad i afiechyd y gellir ei osgoi (megis gordewdra).

Caiff y gwaith hwn ei ategu gan Gynllun Cymhorthdal Llaeth mewn Ysgolion yr Undeb Ewropeaidd gyda'r nod o gynnal neu gynyddu'r cyfraddau yfed a bwyta cynnyrch llaeth gan blant ysgolion cynradd ac uwchradd ac annog plant ysgol i fabwysiadu arfer gydol oes o yfed a bwyta cynnyrch llaeth. Mae'r cynllun llaeth mewn ysgolion yn dal i roi ffynhonnell dda ar gyfer calsiwm (a microfaethynnau) i ddysgwyr fel rhan o ddiet cytbwys. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch bwyta'n iach mewn ysgolion yn cynghori y dylid yfed llaeth sgim neu hanner sgim (er y caniateir llaeth cyflawn i blant meithrin ac na ddylid rhoi llaeth sgim iddynt).

Mae *Cynllun Gwên* yn rhaglen genedlaethol wedi'i thargedu i wella iechyd y geg sy'n amcanu at leihau'r bwlch o ran iechyd y geg rhwng plant o'r teuluoedd mwyaf a lleiaf amddifadus yng Nghymru. Mae Fforwm Cenedlaethol goruchwyliol wedi'i sefydlu a Grwpiau Llywio wedi'u sefydlu yn ardal pob Bwrdd Iechyd Lleol gyda chyllid wedi'i sicrhau ar gyfer 2015/16. Mae ffigyrau ar gyfer 2014 yn dangos bod cyfraddau cyfranogi'n cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mae 92,948 o blant mewn 1,452 o ysgolion a meithrinfeydd ledled Cymru yn cymryd rhan yn yr elfen o'r cynllun sy'n cael ei goruchwylio (59.5% o'r holl blant o oedran cyn-ysgol i Flwyddyn 2 yng Nghymru).
Mae arolygon diweddar hefyd yn cadarnhau bod lefelau clefydau deintyddol ymhlith plant yn gwella yng Nghymru ar draws yr holl grwpiau cymdeithasol. Nid oes tystiolaeth bod anghydraddoldebau'n mynd yn fwy.

Mae **presenoldeb amhriodol mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys** yn gosod straen ar y system ar adeg pan fo cyllidebau dan bwysau eithriadol. Mae'n hanfodol lleihau'r baich diangen hwn er mwyn inni allu cynnal gwasanaethau hyfyw ar gyfer y rhai y mae eu gwir angen arnynt.

Mae Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cydweithio ar lwybrau gofal amgen gan alluogi parafeddygon, meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i osgoi presenoldeb mewn Adrannau Achosion Brys a derbyniadau i'r ysbyty. Mae llwybrau'n bodoli mewn pump o'r saith bwrdd iechyd ar gyfer pobl sydd wedi cwympo a chleifion â diabetes ac epilepsi wedi'i ddatrys, sydd wedi arwain at atgyfeirio dros 2000 o gleifion at wasanaethau eraill yn hytrach nag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.
Mae Galw'r GIG Cymru yn darparu gwasanaeth cyngor a gwybodaeth iechyd dros y ffôn ac ar y we 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos yn ogystal â gwasanaeth brysbennu clinigol dan arweiniad nyrsys ar gyfer galwadau 999 Categori C (difrys) i ategu model clinigol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Yn nodweddiadol mae'r cymorth hwn yn osgoi dros 1,000

o achosion o gludo pobl yn ddiangen mewn ambiwlansys bob mis. Gan edrych tua'r dyfodol, rydym yn datblygu model GIG 111 cenedlaethol ar gyfer Cymru, gan integreiddio Galw'r GIG Cymru a gwasanaethau y tu allan i oriau. Bydd hyn yn sicrhau bod ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion yn cael eu gwella'n barhaus.

**Meithrin cadernid yn erbyn y newid yn yr hinsawdd**

Mae'r sector iechyd wedi adfer Gweithgor y Newid yn yr Hinsawdd ac Iechyd i leihau allyriadau a meithrin cadernid ym maes iechyd y cyhoedd, mewn gwasanaethau iechyd ac yn ystâd y GIG yng Nghymru yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. Bydd y Grŵp amlddisgyblaethol yn canolbwyntio ar gydgysylltu tystiolaeth a pholisïau i fynd i'r afael ag achos a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd a'r gofynion newydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil yr Amgylchedd.

Gall tywydd gwael gael effaith ar iechyd y cyhoedd, yn enwedig i bobl mewn grwpiau agored i niwed megis yr henoed, plant bach iawn neu'r rhai â chyflyrau meddygol sy'n bodoli'n barod. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu canllawiau iechyd y cyhoedd sy'n rhoi cyngor ynghylch mesurau y gellir eu cymryd i leihau'r risgiau i iechyd o ganlyniad i lifogydd, tywydd poeth ac oerfel eithafol. Mae'r ddogfen "Rhybuddion Iechyd Cyhoeddus Tywydd Eithafol a Chyngor Cymru[23]" a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2015 yn darparu ffynhonnell gyfunol ar gyfer rhybuddion a chyngor pan geir neu pan ragwelir tywydd eithafol.

Mae ein hymagwedd tuag at wella iechyd a llesiant poblogaeth Cymru yn seiliedig ar fodel 'system gyfan', lle mae'r amgylchedd yn un yn unig o blith llawer o benderfynyddion iechyd (sy'n gynnwys ffactorau diwylliannol, ethnig, cymdeithasol, economaidd, biolegol a genetig) sydd ar y cyd yn cyfrannu at ein hiechyd a'n llesiant. Mae amgylchedd iach (aer a phridd glân, bwyd maethlon a dŵr yfed a.y.b.) yn ysgogydd cryf ar gyfer iechyd unigolion a'r boblogaeth. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos ac yn gydweithredol gyda nifer o bartneriaid, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Byrddau Iechyd, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd ar amrywiaeth o raglenni iechyd a llesiant, gan ddefnyddio ein gwybodaeth am beryglon amgylcheddol a thystiolaeth ohonynt i ategu'r achos dros atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae enghreifftiau'n cynnwys

- mae gwaith ar faterion ansawdd aer a thir halogedig yn cysylltu â gwaith i hybu camau gweithredu i newid ymddygiad a chreu cymunedau iach, cynaliadwy ac i fynd i'r afael ag annhegwch amgylcheddol ac anghydraddoldebau iechyd;
- gweithio gyda chydweithwyr ym maes tai, ein gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu a bydwragedd cymunedol i hwyluso'r broses o adnabod problemau carbon monocsid yn gynnar;

[23] http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/44255

- cysylltu'n agosach ag Adrannau Cynllunio Awdurdodau Lleol i ddadlau dros fynd ati fel rhan o'r drefn arferol i ystyried risgiau amgylcheddol i iechyd y cyhoedd a datrysiadau i'r rhain mewn materion rheoli datblygu.
- archwilio sut orau y gallwn weithio gydag eraill i hybu a gwella iechyd pobl ac i leihau anghydraddoldebau mewn iechyd lle mae gan ffactorau amgylcheddol ran i'w chwarae.

### Cyrhaeddiad Addysgol

Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau hirdymor ar adegau allweddol yn natblygiad addysgol ei dinasyddion. Mae hyn yr un mor bwysig yn ein profiadau yn ystod y blynyddoedd cynnar ag y mae yn y safonau mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach ac uwch.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i godi safonau darpariaeth, cyrhaeddiad a seilwaith addysg a hyfforddiant ledled Cymru fel bod pawb yn gallu cyrraedd ei botensial. Mae hefyd yn amcanu at ddarparu gweithlu sydd â sgiliau addas a chyfleoedd o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddysgwyr, gan gynorthwyo unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau i wella llesiant economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb trwy addysg a hyfforddiant.

Mae datblygu cynaliadwy yn cydberthyn yn naturiol â'r gwaith hwn ac mae cymhwyso ei egwyddorion yn gallu helpu i ddwyn manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol lluosog. Mae'r enghreifftiau canlynol i wella llythrennedd a rhifedd, mynd i'r afael ag anfantais addysgol, datblygu seilwaith ysgolion carbon isel a chadarn a chefnogi'r Gymraeg yn dangos y budd cadarnhaol a gyflawnwyd dros y flwyddyn.

### Gwella llythrennedd a rhifedd

Un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer addysg yng Nghymru yw gwella safonau llythrennedd a rhifedd fel y sylfaen ar gyfer dysgu ar lefel uwch a chyflogadwyedd. Mae galluogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial yn effeithio ar eu llesiant ond mae hefyd yn effeithio'n gadarnhaol ar economi Cymru yn ei chyfanrwydd. Bydd buddsoddi yn ystod y blynyddoedd ffurfiannol hyn yn helpu i atal yr angen i fuddsoddi mewn rhaglenni cywirol yn y dyfodol. Yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth hon i godi safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion ledled Cymru, fe lansiodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol, sy'n egluro'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â gwella safonau mewn llythrennedd a rhifedd, gan nodi'r camau gweithredu y mae angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid eu cymryd i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol.

Rhywbeth sy'n allweddol i gyflawni'r rhain yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, sy'n sefydlu disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer dysgu gan ddisgyblion. Hefyd, ceir profion darllen a rhifedd cenedlaethol a gaiff eu sefyll yn flynyddol gan ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9. Profion diagnostig

ydynt sy'n helpu ysgolion i adnabod anghenion disgyblion unigol o ran cymorth fel eu bod yn gallu targedu ymyriadau'n effeithiol.

Bydd ein cynllun gwella addysg Cymwys am Oes yn cofnodi'r gwaith hyd yma ac yn dangos sut yr ydym yn parhau i gefnogi llythrennedd a rhifedd e.e. trwy'r canfyddiadau o'r Grŵp Tasg a Gorffen Mathemateg, y rhaglen newydd i gefnogi TGAU a'r rhaglen weithredu ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Bydd y gwaith i ddiweddaru'r rhaglenni'n gyfle i fyfyrio ar y cynnydd ac ystyried ffyrdd ymlaen yn yr ymgais parhaus i wella safonau. Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r gwaith diweddaru'n cael ei wneud erbyn hydref 2015; fodd bynnag, yn awr mae disgwyl i'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd wedi'u diweddaru gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2016. Mae'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn wedi cael eu cysoni â'r gwaith i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer dyluniad y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd a nodir yn 'Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes'. Disgwylir y bydd effaith y rhaglenni hyn yn cael ei gweld ar ganlyniadau TGAU ac asesiadau PISA yn y dyfodol wrth i'r cohortau o ddisgyblion gamu ymlaen trwy'r ysgol. Rydym wedi comisiynu gwerthusiad allanol o'r rhaglenni i helpu i ddeall pa mor dda y gwnaethom eu cyflawni yn ogystal â'u heffaith.

**Cefnogi disgyblion a chymunedau amddifadus**

Mae Llywodraeth Cymru yn annog ac yn cynorthwyo sefydliadau addysg i weithredu fel rhan o'r gymuned mewn nifer o ffyrdd i sicrhau manteision cymunedol ehangach megis hybu cydlyniant cymunedol, cynyddu asedau hyblyg ac ehangu mynediad at addysg uwch. Darparodd yr Adran Addysg, ar y cyd â'r Isadran Cymunedau yn Gyntaf, £3m ar gyfer Cronfa Arian Cyfatebol y Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf, sydd wedi ariannu ystod o brosiectau llwyddiannus sydd wedi'u bwriadu i wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr, a hybu cydweithio agosach rhwng ysgolion a'u cymunedau ehangach trwy'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf rhwng 2013 a 2015. Ni fydd Cronfa Arian Cyfatebol y Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau yn Gyntaf yn parhau yn 2016/17. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i brosiectau llwyddiannus barhau – mae'r canlyniadau'n rhan allweddol o'n canlyniadau bwriadedig – ac mae'r setliad gwell na'r disgwyl yn darparu ar gyfer hyn. Bydd yn ei gwneud yn bosibl mabwysiadu dull llai biwrocrataidd, mwy creadigol gobeithio, o gydweithio.

Er mwyn helpu i hybu cydlyniant cymunedol, ym mis Mehefin 2015 fe gynhyrchon ni ganllawiau a phecyn cymorth o adnoddau ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd (FaCE) sydd wedi'u bwriadu'n benodol i helpu ysgolion i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach er mwyn codi safonau, cyrhaeddiad a llesiant dysgwyr. Mae Adnodd 5 yn y pecyn cymorth yn cynnwys cyngor i ysgolion ynghylch datblygu partneriaethau cymunedol, ac yn hyrwyddo'r rôl y gall ysgolion ei chyflawni o ran hybu a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar. Ynghyd â'r adnodd hwn, mae Estyn yn arolygu ysgolion o safbwynt eu darpariaeth ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth ac o safbwynt y ffordd y maent yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u cymuned. Mae hyn yn ysgogi ysgolion i edrych yn fwy tuag at allan ac i

ddatblygu ethos sy’n gynhwysol ac sy’n cyfrannu at gydlyniant cymunedol. Un o nodau Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif yw creu amgylcheddau addysgol hyblyg sy’n diwallu anghenion y dysgwr a’r gymuned ehangach. Rhoddir ystyriaeth i’r manteision ehangach a gyflawnir wrth asesu unrhyw achos busnes ar gyfer prosiect ac mae gwerth ychwanegol Manteision Cymunedol yn ystyriaeth annatod wrth gaffael pob prosiect o fewn y Rhaglen. Mae’r mesurau hyn yn sicrhau bod materion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach yn cael eu hystyried yn ystod cylch oes y prosiect.

Enghraifft o asedau a mannau hyblyg mewn cymunedau
Mae Ysgol y Gogarth, sy’n ysgol yn Llandudno sy’n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn cynnwys pwll hydro a neuadd chwaraeon, sy’n hygyrch i grwpiau cymunedol eraill ac yn cynnwys ystafell gofal iechyd ar gyfer gwasanaethau i oedolion. Hefyd, mae Campws Dysgu Penarth, sy’n ysgol a ariannwyd trwy Raglen Drosiannol Ysgolion yr 21ain Ganrif, wedi bod yn gyfrifol am greu lleoedd hyfforddi a phrentisiaethau i 83 o bobl, wedi cyflogi 1,422 o bobl o fewn radiws o 25 milltir yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi rhoi 457 awr i brosiectau gan ysgolion. Mae colegau addysg bellach yn chwarae rhan allweddol yn y gymuned, o ddarparu lleoliad ar gyfer digwyddiadau lleol ym myd y campau i ddatblygu cwrs amaethyddol ar y cyd â ffermwyr lleol. Adroddir ar hyn trwy gylchlythyr Colegau Cymru, er enghraifft http://www.collegeswales.ac.uk/en-GB/enews177_160315-721.aspx. Mae hyn yn cynorthwyo’r cymunedau lleol ac yn rhoi profiad gwerthfawr i’r myfyrwyr.

Un o’r blaenoriaethau allweddol ar gyfer addysg uwch yw ehangu mynediad, sy’n gwneud cyfraniad sylweddol at gymdeithas ac economi Cymru, ac yn cefnogi cyfiawnder cymdeithasol, symudedd cymdeithasol ac uwchsgilio economaidd. Caiff hyn ei arwain gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae Llythyr Cylch Gwaith CCAUC ar gyfer 2015-16 yn nodi disgwyliad y Gweinidog y bydd y Cyngor yn parhau â’i ddull strategol i annog a chymell prifysgolion a’u partneriaid i godi dyheadau a chyflawniad addysgol ymhlith cymunedau sy’n draddodiadol wedi bod yn cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch, yn enwedig ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae disgwyl i sefydliadau addysg uwch ddatblygu partneriaethau cryf gyda’u Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf perthnasol, ystyried pa gamau gweithredu y gallent eu cymryd i sicrhau bod y cyfle i gael addysg uwch yn cael ei hyrwyddo’n weithredol i bobl ifanc o ardaloedd amddifadus a chynorthwyo partneriaid lleol i godi dyheadau pobl ifanc.

Yn dilyn cynhadledd ar y cyd rhwng CCAUC a Llywodraeth Cymru ar ehangu mynediad ym mis Rhagfyr 2014, aeth CCAUC a Chyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DU (ESRC) ati ar y cyd i gomisiynu ac ariannu Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) i wneud gwaith ymchwil i gael dealltwriaeth well am y ffactorau sy’n trefnu patrymau cyfranogiad mewn addysg uwch yng Nghymru ac i archwilio’r rôl benodol a gyflawnir gan fentrau polisi i ehangu mynediad at addysg uwch o ran cyfrannu at y patrymau hyn. Mae adroddiad dilynol

WISERD, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015, yn cyflwyno canfyddiadau ei adroddiad a'r goblygiadau ar gyfer polisi, ac yn gwneud nifer o argymhellion i CCAUC, Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch i gynyddu nifer y disgyblion sy'n camu ymlaen i'r brifysgol o ysgolion a cholegau sydd â lefelau isel yn hanesyddol o'r math yma o gyrhaeddiad.

**Cefnogi pobl ifanc trwy eu haddysg**

Mae'r sector addysg uwch yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru trwy ei wariant a thrwy gyflogi staff. Mae cyfraniad y sector at dwf economaidd cynaliadwy yn eang – trwy greu gwybodaeth, datblygu gweithlu medrus, a thrwy ymgysylltu â chymunedau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i wneud addysg uwch yn agored i bawb sydd â'r potensial i gael budd ohoni.

Rydym yn parhau i gefnogi pobl ifanc trwy ein Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru, gan annog pobl ifanc 16-18 oed o aelwydydd incwm isel i aros ym myd addysg. Mae tua 30,000 o fyfyrwyr yn cael budd o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg bob blwyddyn gyda thua £24 miliwn yn cael ei dalu i fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2014/15. Un dangosydd allweddol yw'r ganran o dderbynyddion Lwfans Cynhaliaeth Addysg sy'n camu ymlaen i addysg uwch (AU). Dengys y ffigyrau diweddaraf fod 31% o dderbynyddion Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn 2012/13 wedi camu ymlaen i AU (naill ai yn 2013/14 neu yn 2014/15). Bydd y dangosydd hwn yn gynyddol yn creu darlun, dros amser, o'n llwyddiant o ran sicrhau y dylai mynediad at AU fod yn seiliedig ar allu'r unigolyn i gael budd, nid yr hyn y gall fforddio'i dalu.

Yn 2013/14, fe gomisiynon ni werthusiad annibynnol a ganfu fod y cymorth yr ydym yn ei ddarparu trwy'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg o fudd i bobl ifanc o aelwydydd incwm isel trwy ehangu mynediad at addysg, lleihau cyfradd y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Cafodd rhanddeiliaid ac ymarferwyr eu cynrychioli ar Grŵp Llywio'r Gwerthusiad ac fe gyfranogon nhw yn yr ymchwil, ynghyd â myfyrwyr a rhieni. Byddwn yn ymgynghori ynghylch unrhyw newidiadau i'r Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (ar wahân i newidiadau technegol).

Er mwyn sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau y mae eu hangen arni i ymateb i heriau'r dyfodol, mae'n rhaid bod gan brifysgolion a myfyrwyr fynediad at yr adnoddau a'r cymorth y mae eu hangen arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu strategaeth eglur ar gyfer *ffioedd dysgu a chymorth* – a bydd y polisïau hyn yn aros mewn grym o leiaf tan ddiwedd tymor presennol y Cynulliad.

Mae'r grant ffioedd dysgu nad yw'n seiliedig ar brawf modd yn cwrdd ag unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru o'i gymharu â 2010/11. Bydd y polisi ar ffioedd dysgu wedi cael ei gymhwyso i tua 57,000 o fyfyrwyr erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2014/15, sy'n golygu bod Llywodraeth Cymru wedi atal myfyrwyr o Gymru

rhag cronni dyled ychwanegol o oddeutu £270m yn ystod tair blynedd gyntaf y polisi. 2012/13 yw'r data diweddaraf sydd ar gael ar y canlyniadau ac wrth symud ymlaen byddwn yn mynd ati'n ofalus i fonitro effaith y polisi ar ehangu mynediad.

Mae Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn rhan o'r pecyn cymorth statudol i fyfyrwyr addysg uwch a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Yn 2013/14 cafodd Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl gwerth tua £9m eu dyrannu i dros 3,700 o fyfyrwyr o Gymru tuag at ystod o fathau o gymorth, gan gynnwys darparu gweithwyr cymorth, prynu cyfrifiaduron ac offer arbenigol a chymorth gyda chostau teithio. Mae'r polisi ar Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau bod cyllid Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn cael ei dargedu'n effeithiol.

**Gwella cyfleoedd dysgu**
Mae *Academi Wales* wedi bod yn sefydlu rhaglen Rheoli Newid yn Llwyddiannus ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r rhaglen yn defnyddio egwyddorion ysgogi newid cynaliadwy a chydweithredol ar draws ffiniau sefydliadau a sectorau, mae dros 50 o hyfforddwyr gwasanaethau cyhoeddus wedi cael y sgiliau a'r deunyddiau i sefydlu'r rhaglen yn lleol ac mae bron i 3500 o reolwyr wedi bod trwy'r rhaglen sy'n seiliedig ar ganlyniadau hyd yma. Bydd Academi Wales yn arwain ar brosiect Gwerthoedd Gwasanaethau Cyhoeddus ac am y tro cyntaf yn cyhoeddi Fframwaith Cymwyseddau a Nodweddion Arwain i Uwch Arweinwyr mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y ddau ddarn o waith arwyddocaol yma'n seiliedig ar egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac yn diffinio ymddygiadau'r rhai sy'n arwain sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sydd â ffocws ar y dyfodol ac sy'n gynaliadwy.

**Gwella'r Gymraeg mewn addysg**
Fel rhan o hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg, Iaith fyw: iaith byw yw strategaeth y Gymraeg 2012 – 2017 ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd. Mae'n cefnogi ein gweledigaeth i weld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae darparu addysg cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar i ddysgu yn y gweithle'n darparu dull allweddol o greu siaradwyr Cymraeg ac unigolion sy'n hyderus i ddefnyddio'r iaith gartref, yn eu cymuned ac yn y gweithle.

Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod addysg a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ledled Cymru a bod dilyniant o un cyfnod i'r llall ar gael yn Gymraeg. Mae Adroddiad Blynyddol y Strategaeth[24] yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gyflawni'r holl gamau gweithredu a ddyrannwyd yn Rhaglen Gyflawni'r Strategaeth er bod angen ymyriadau pellach o hyd ar gyfer rhai camau gweithredu er mwyn gwneud cynnydd pellach tuag at y targedau tymor canolig a bennwyd. Mae rhai o'r cyflawniadau allweddol yn ystod y deuddeng mis diwethaf yn cynnwys:

[24] http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/wmesreport/?lang=cy

- Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013, derbyniwyd y cynlluniau statudol cyntaf gan yr holl awdurdodau lleol, sy'n sicrhau yr eir ati i gynllunio ac ystyried datblygiad addysg statudol cyfrwng Cymraeg yn y tymor hir ledled Cymru.
- Mae'r targed i gynyddu nifer y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn colegau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith wedi cael ei gyrraedd. Mae cyrraedd y targed hwn yn sicrhau bod mwy o unigolion yn cynnal eu sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio mewn cyflogaeth yn y dyfodol.

Rydym ym mlwyddyn olaf y Strategaeth ac mae gwerthusiad annibynnol bron â chael ei gwblhau. Bydd yr adroddiad ar y gwerthusiad yn cael ei gyhoeddi yn yr haf.

Mae'n rhaid goresgyn rhwystrau gwirioneddol er mwyn i'r Gymraeg oroesi a ffynnu yn y tymor hir. Mae sicrhau bod pobl yn cael pob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob rhan o'u bywydau'n un ffordd o wneud hyn a gellir ei wneud trwy gymorth Llywodraeth Cymru i grwpiau cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg a chefnogi cyfryngau cyfathrebu.

Mae mudiadau megis yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc a'r Mentrau Iaith wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd i bobl o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd a byw'n ddwyieithog.

Mae Mudiad y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn darparu gweithgareddau niferus ar gyfer pobl ifanc o 10 – 26 mlwydd oed, gan gynnwys sgiliau siarad cyhoeddus, perfformio ar lwyfan a datblygu sgiliau gwledig a hyn oll yn cael ei ddarparu naill ai yn Gymraeg neu yn ddwyieithog yng ngogledd a de orllewin Cymru. Mae gan fudiad ieuenctid yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed ac mae'n darparu ystod eang o weithgareddau sy'n cynnwys Eisteddfodau, gweithgareddau chwaraeon a hamdden, teithiau cyfnewid a gweithgareddau preswyl. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc y tu allan i oriau ysgol ac mae'r Mentrau Iaith yn darparu gweithgareddau niferus sy'n helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd, pobl ifanc ac o fewn y gymuned. Mae *Cynllun Gweithredu Technoleg a'r Cyfryngau Digidol Cymraeg* wedi cael ei ddatblygu i gefnogi cynnwys a chymwysiadau yn y cyfryngau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg, gan alluogi'r Gymraeg i ffynnu a galluogi siaradwyr Cymraeg i gyfranogi'n llawn fel dinasyddion digidol. Ein huchelgais yw y dylai siaradwyr Cymraeg allu byw eu bywydau'n electronig trwy gyfrwng y Gymraeg, boed at ddibenion diwylliannol, gwybodaeth, adloniant, hamdden, adwerthu, trafodol, cymunedol neu rwydweithio cymdeithasol. Wrth sefydlu ein Grant Technoleg a'r Cyfryngau Digidol Cymraeg fe ganolbwyntion ni ar ddatblygiadau sy'n gallu tyfu yn unol â'r anghenion ac y gellir eu rhannu. Mae ap dysgu symudol Cymraeg Prifysgol Aberystwyth yn bodloni'r meini prawf

hyn o ran darparu offeryn dysgu i bobl fewngludo'u geirfaoedd, cwisiau ac ymarferion eu hunain ac aps allbynnu ar gyfer dyfeisiau Apple ac Android.

Trwy wobrwyo prosiectau sy'n cofleidio trwyddedu agored megis Creative Commons a Chod Agored, rydym yn amcanu at ariannu prosiectau lle gall y nwyddau gael eu rhannu, eu hailddefnyddio a'u trosglwyddo i eraill. Un enghraifft o hyn yw ein perthynas hirdymor gydag Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor. Mae cymorth gan Lywodraeth Cymru wedi'u galluogi i rannu eu hasedau a ariannwyd â chyllid cyhoeddus dan drwyddedau agored, gan ddefnyddio rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau. Wedyn gall eraill fewnblannu eu gwirydd sillafu Cysill i wefannau, sy'n arwain at fwy o hyder i ddefnyddio'r Gymraeg; rhaglen adnabod llais newydd sy'n gam pwysig at y capasiti llais-i-destun llawn y mae ei angen yn Gymraeg; a corpora o filoedd o dermau y gellir eu lawrlwytho i gael eu dadansoddi gan ymchwilwyr 'data mawr'[25].

**Adeiladu ysgolion gwell**

Mae ysgolion effeithlon a chadarn yn rhan allweddol o'n hamgylchedd dysgu. Mae Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynrychioli buddsoddiad mawr yn ein seilwaith addysgol. Bydd Band A y Rhaglen yn arwain at ailadeiladu ac adnewyddu mwy na 150 o ysgolion a cholegau dros y cyfnod sy'n dod i ben yn 2019. Mae'r Rhaglen yn amcanu at ddarparu adeiladau cynaliadwy gan ysgogi effeithlonrwydd ynni ac ymddygiad cynaliadwy trwy amodau ein grant, sy'n ei gwneud yn ofynnol cael sgôr 'Rhagorol' yn ôl Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) a Thystysgrif Perfformiad Ynni gradd 'A' fel gofyniad safonol ar gyfer adeiladau newydd a phrosiectau ailfodelu sylweddol. Diben y buddsoddiad hwn yw cyflawni:

- Amgylcheddau dysgu gwell i blant a phobl ifanc yng Nghymru rhwng 3 ac 19 mlwydd oed i'w gwneud yn bosibl cyflawni strategaethau ar gyfer gwella ysgolion yn llwyddiannus a chyflawni canlyniadau addysgol gwell dros y tymor hir;
- Defnydd gwell o adnoddau i wella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystâd addysg;
- Darpariaeth well o ran gwasanaethau cyhoeddus lleol;
- Safon Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer yr holl ysgolion yng Nghymru a fyddai'n lleihau costau cylchol, defnydd o ynni ac allyriadau carbon, trwy sgorau BREEAM 'Rhagorol'.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a'r sector addysg bellach i gyflawni'r newidiadau hyn i'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r newidiadau hyn yn cysylltu â gwelliannau ehangach sy'n cynnwys lleihau nifer y lleoedd gwag i gyflawni mwy o effeithlonrwydd ac mewn llawer o achosion maent yn cysylltu â chynlluniau adfywio ehangach mewn rhai o'n cymunedau mwyaf amddifadus, megis Gorllewin y Rhyl. Mae'n

[25] Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar gael yn http://techiaith.org.

rhaid i'r holl brosiectau o fewn ein rhaglen ystyried manteision cymunedol ehangach. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth yn ystod gwaith adeiladu, defnyddio cyflenwyr lleol ac ystyried defnydd gan y gymuned ehangach ac integreiddio'r prosiect â'r gymuned fel rhan o'r achos busnes.

Yn ogystal â chreu'r amgylchedd cywir rydym hefyd yn sicrhau bod ein cenhedlaeth nesaf yn deall pwysigrwydd datblygu cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cymorth i Cadwch Gymru'n Daclus i gyflawni'r rhaglen Eco-Sgolion hynod lwyddiannus yn 2016/17. Mae dros 830 o ysgolion yng Nghymru bellach yn meddu ar wobr glodfawr ryngwladol y Faner Werdd ac mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn dysgu am yr heriau a achosir gan hinsawdd sy'n newid a sut y gallant fabwysiadu ymddygiad mwy cynaliadwy.

## Cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau agored i niwed

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fod â chymdeithas deg a chyfartal lle mae pobl yn cael yr un cyfleoedd ni waeth beth fo'u cefndir. Mae ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys camau gweithredu i hybu cyfle cyfartal a mynd i'r afael â gwahaniaethu, hybu cymuned fwy cynhwysol a chydlynus; rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr dros y gwasanaethau y maent yn eu derbyn; sicrhau bod pobl yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen i fyw bywydau bodlon ac iach; lleihau lefel troseddau ac ofn troseddau; a darparu tai fforddiadwy o ansawdd uchel sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Mae ein dull o fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy yn adlewyrchu'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac yn darparu fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn trwy sicrhau dull ataliol, hirdymor, cyson.

## Trechu tlodi

Fe wnaeth ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a gyhoeddwyd yn 2013 bennu cerrig milltir a thargedau penodol i wella canlyniadau ar gyfer y rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar Drechu Tlodi ar gyfer 2015, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, yn amlygu'r cynnydd a wnaed tuag at y targedau yr ydym wedi'u pennu yn ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Rydym wedi cyrraedd ein targed i gau'r bwlch mewn lefelau cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn y Cyfnod Sylfaen cyn pryd. Rydym hefyd yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd ein targed i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), adeiladu cartrefi fforddiadwy a chyflawni'r Rhaglen Esgyn. Mae nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith yng Nghymru yn is nag erioed hefyd.

Ym mis Mawrth 2015, fe wnaethom hefyd gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Mae hwn yn ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r uchelgais i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Mae hefyd yn ailddatgan y tri amcan strategol yn Strategaeth Tlodi Plant 2011. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith, cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc i'w galluogi i sicrhau cyflogaeth sy'n talu'n dda, ac i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r bobl dlotaf. Yng ngoleuni adborth o'r ymgynghoriad, rydym hefyd wedi datblygu dau amcan strategol newydd, sef: defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gref sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi ac yn lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru; a helpu teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwydydd – trwy gyngor ynghylch dyledion a chyngor ariannol, camau gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" (lle mae aelwydydd yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau) a chamau gweithredu i liniaru effeithiau'r diwygiadau lles. Mae'r Strategaeth ddiwygiedig yn cynnwys ymrwymiad i wneud mwy i gefnogi aelwydydd incwm isel "yn y presennol". Bydd hyn yn cynnwys datblygu

ymrwymiadau newydd i drechu tlodi bwyd; lleihau tlodi mewn gwaith; gofal plant; tai ac adfywio; a lliniaru effeithiau'r diwygiadau lles.

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yw ein mecanwaith allweddol o hyd ar gyfer cyrraedd y nodau yn ein Strategaeth Tlodi Plant. Mae ystod o wahanol bolisïau a rhaglenni'n cyfrannu at yr agenda trechu tlodi ac yn gwella canlyniadau i blant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Mae hyn yn cynnwys ein rhaglenni trechu tlodi allweddol – Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a Cefnogi Pobl. Mae gan raglenni megis Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), Cymunedau am Waith ac Esgyn rôl allweddol hefyd o ran cynorthwyo'r rhai sydd bellaf o'r gweithle i gael mynediad at gyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi.

Mae gan raglen **Cymunedau yn Gyntaf** dri amcan strategol, sy'n helpu i gyflawni:

- Cymunedau Ffyniannus
- Cymunedau Dysgu
- Cymunedau Iachach

Mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn cynhyrchu cynlluniau cyflawni sy'n nodi gweithgareddau yn unol â'r amcanion strategol, a'r rheiny'n cefnogi gwaith ar draws nifer o Bortffolios Llywodraeth Cymru gan gynnwys Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Sgiliau a'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Yn 2014/15, o ganlyniad i raglen Cymunedau yn Gyntaf, fe ymgymerodd 2,646 o gyfranogwyr dros 25 oed â chyflogaeth, fe gynyddodd 6,043 o blant eu presenoldeb yn yr ysgol, fe wellodd 11,050 o blant eu perfformiad academaidd, gyda 5,675 o rieni yn ymgysylltu'n fwy ag ysgol eu plentyn. Yn ychwanegol at hyn, mae 14,981 o gyfranogwyr wedi cynyddu eu gweithgarwch corfforol.

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda rhaglenni a mentrau eraill yn nodwedd allweddol ar Cymunedau yn Gyntaf. Mae enghreifftiau o'r dull hwn yn cynnwys treialu "Ychwanegu At Fywyd" (archwiliad iechyd a llesiant ar-lein Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl dros 50) mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a gweithio gyda Cyngor Ar Bopeth Cymru mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Gan ddeillio o adroddiad y Fonesig Andrews *Culture and Poverty*, mae'r agenda *Cyfuno: Trechu Tlodi Trwy Ddiwylliant* yn ymwneud â chysylltu'r sector diwylliannol â threchu tlodi. Un o feysydd allweddol Cyfuno yw'r rhaglen *Ardaloedd Arloesi* sy'n seiliedig ar ddylunio a chyflawni gweithgarwch diwylliannol sy'n cefnogi canlyniadau presennol Cymunedau yn Gyntaf yn uniongyrchol. Mae hon yn cael ei threialu ar hyn o bryd mewn chwe ardal Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru.

### Mynd i'r afael â cham-drin domestig a lleihau troseddau

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall cam-drin domestig ddigwydd mewn pob math o berthynas glòs ac y gellir ei brofi trwy weithredoedd corfforol, rhywiol neu emosiynol. Rydym wedi parhau i gydweithio gyda

sefydliadau ledled Cymru a'u cynorthwyo i helpu i adnabod ac atal pob math o gam-drin domestig. O ganlyniad i'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid wedi'i wneud trwy'r Rhaglen *10,000 o Fywydau Diogelach*, megis gweithredu'r 11 safon ofynnol, mae nifer y bobl sy'n fwy diogel neu'n teimlo'n fwy diogel wedi mynd y tu hwnt i 13,000 rhwng 2011-2012 a 2013-14.

Bydd cyflwyno'r *Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* yn cryfhau ein dull ymhellach ac yn sicrhau ffocws ar draws y sector cyhoeddus ar atal trais sy'n seiliedig ar y rhywiau, cam-drin domestig a thrais rhywiol, amddiffyn dioddefwyr a rhoi cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt gan faterion o'r fath.

Bydd Strategaethau Cenedlaethol a Lleol ar y cyd â dull ariannu rhanbarthol yn sicrhau bod gwasanaethau'n seiliedig ar anghenion, yn gynaliadwy ac yn mynd i'r afael â'r agweddau ar ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag atal, amddiffyn a chefnogi.

Mae'r *Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid* yn dosbarthu cyllid ar draws chwe phartneriaeth ranbarthol. Mae'r Gronfa'n cefnogi'r blaenoriaethau a'r canlyniadau yn y Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig. Mae rhanbarthau'n dweud bod gostyngiadau wedi bod mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, yn nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r gyfundrefn cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf ac mewn cyfraddau aildroseddu. Er enghraifft, yn ardal Cwm Taf rhwng 1 Hydref 2014 a 31 Mawrth 2015, mae'r prosiect Cymorth i Ddioddefwyr/Tystion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn dweud bod 71% o ddioddefwyr yn teimlo'n fwy diogel ac nad ydynt yn profi ymddygiad gwrthgymdeithasol mwyach. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd 49 o'r dioddefwyr risg uchel mwyaf agored i niwed eu cefnogi ac nid aeth unrhyw bobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect ymlaen i aildroseddu.

**Helpu pobl gyda'u harian**

Mae cyllid o bron i £1.9m ar gael tan fis Mawrth 2017 i gefnogi *Undebau Credyd*. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i alluogi Undebau Credyd i roi cymorth i bobl sydd wedi'u hallgau'n ariannol ac nad ydynt o bosibl yn gallu cael mynediad at gynnyrch ariannol prif ffrwd. Yn y tymor hir, mae Llywodraeth Cymru am weld Undeb Credyd cynaliadwy. Er mwyn ymestyn aelodaeth ymhellach, rydym yn annog aelodaeth gryfach o Undebau Credyd yn y sector cyhoeddus, ar draws awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r sector addysg, gan ddefnyddio dulliau hygyrch megis didynnu trwy'r gyflogres. Ar y cyfan, ein nod yw cynorthwyo Undebau Credyd i gynyddu eu cyfran o'r farchnad i 6 y cant erbyn 2020.

Bydd gwaith i ddiwygio'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn ystyried ac yn cynnwys camau gweithredu yn y dyfodol mewn perthynas â chryfhau'r mudiad Undebau Credyd yng Nghymru. Bydd yr ymrwymiadau a'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol newydd yn gwneud cyfraniad pwysig at gefnogi aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Yn arbennig, bydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcan newydd

yn Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i fwriadu i gynorthwyo teuluoedd i gynyddu incwm eu haelwyd trwy liniaru effeithiau'r diwygiadau lles a mynd i'r afael â'r premiwm tlodi.

**Gwella cartrefi a chymunedau pobl**

Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi aelwydydd incwm isel yw'r ffordd fwyaf effeithiol y gallwn drechu tlodi tanwydd, gan leihau allyriadau ar yr un pryd. Gan fod trechu tlodi'n flaenoriaeth lwyr i Lywodraeth Cymru, mae llywio'r broses gyflawni trwy ein rhaglen effeithlonrwydd ynni, Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys Nyth ac Arbed, ynghyd â gwaith i ysgogi cyllid o'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) i mewn i Gymru, yn ganolog i'n dull.

Fe wnaeth cynllun Arbed 2, a ariannwyd â chyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, wella effeithlonrwydd ynni bron i 3000 o gartrefi mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru. Fe greodd y rhaglen fwy na 470 o swyddi newydd ac fe ddarparodd dros 40,000 o oriau o hyfforddiant ar gyfer cyflogeion newydd a phresennol. Cafodd y cynlluniau i gyd eu cyflawni gan gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, gan gynnwys consortiwm o BBChau lleol. Bu rheolwyr y cynllun yn gweithio gyda Gwerth Cymru i ddatblygu'r 'Offeryn Manteision Cymunedol' ac maent wedi dangos adenillion o £2 i mewn i'r cymunedau lleol am bob £1 a fuddsoddwyd. Roedd gan y rhaglen arbediad carbon wedi'i fodelu o 2.48Ktc ac arbedion ynni o 9.5 GigaWatt Awr.

Cynllun gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithio i helpu i leihau nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd ac i wneud cartrefi yng Nghymru'n gynhesach ac yn adeiladau sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon ar gyfer y bobl sy'n byw ynddynt yw Nyth. Mae Nyth yn cynnig ystod o fathau o gyngor a chymorth i bawb i arbed ynni a chynyddu incwm i'r eithaf. Yn 2014-15 fe wnaeth Nyth wella mwy na 4,260 o gartrefi. Amcangyfrifir bod y gwelliannau ynni a wnaed wedi cyflawni arbedion cyfartalog o fwy na £470 yr aelwyd ar filiau. Cafodd graddau'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) eu codi 38 pwynt SAP ar gyfartaledd, gyda thros 95% o gartrefi'n cael eu gwella i lefel Tystysgrif Perfformiad Ynni gradd E neu uwch. Amcangyfrifir bod cyfanswm yr arbedion oes CO2 o ganlyniad i'r gwelliannau hyn yn fwy na 247,982 o dunelli. Yn ystod 2015-16, disgwylir y bydd buddsoddiad yn Nyth yn cyflawni gwelliannau i fwy na 6,000 o'r cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran eu defnydd o ynni.

Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Twf Gwyrdd Cymru: Ynni Lleol, sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol lle mae cymunedau a busnesau'n defnyddio trydan a gwres a gynhyrchwyd yn lleol o ystod o osodiadau adnewyddadwy i ateb y galw lleol. Bydd gosod a chynnal a chadw'r technolegau adnewyddadwy hyn a'r systemau a ddefnyddir i'w rheoli yn darparu swyddi lleol da ar gyfer y tymor hir.

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid ac wedi rhoi cymorth i ddatblygu cyflenwad o brosiectau ynni a'r rheiny'n rhai cymunedol, yn rhai gan awdurdodau lleol, yn rhai Byw'n Glyfar ac yn rhai gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym wedi darparu arbenigedd masnachol ar gyfer cyrff cyhoeddus i helpu i gyflawni prosiectau cynhyrchu ynni ac effeithlonrwydd ynni lleol. Mae ein Cofrestr o Fanteision Cymunedol ac Economaidd yn nodi sut y mae cymunedau lleol wedi cael cymorth gan ddatblygwyr ynni i ariannu blaenoriaethau lleol.

Cafodd gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru ei lansio ym Mharc Taf Bargoed, Treharris yn 2016. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth integredig gan gynnwys cymorth a chyngor gan Swyddogion Datblygu sy'n gweithio'n lleol, mynediad at gyllid paratoi a benthyciadau, ac adnoddau ar-lein gan gynnwys pecyn cymorth a phorth partneriaeth. Bydd y porth partneriaeth, sy'n cael ei letya ar wefan Ynni Lleol Llywodraeth Cymru, yn dwyn ynghyd bartneriaid megis grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol, datblygwyr a buddsoddwyr i gydweithio ar brosiectau, a fydd yn cynyddu'r opsiynau ar gyfer cydberchnogaeth ar ddatblygiadau. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys offer, templedi ac adnoddau amrywiol. Mae'r gwasanaeth yn archwilio gwahanol fodelau ariannol ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy mewn amgylchedd heb gymorthdaliadau. Bydd y prosiect hefyd yn mapio safleoedd newydd posibl, a bydd yn helpu grwpiau mewn ardaloedd mwy amddifadus i ddatblygu'r safleoedd hyn, mewn partneriaeth gydag eraill.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â grŵp o randdeiliaid ynni cymunedol a lleol, gan gynnwys Ynni Cymunedol Cymru, yn bennaf o Gymru ond gan gynnwys aelodau uchel eu parch o'r sector ynni cymunedol ledled y DU hefyd a chan adeiladu ar brofiadau o gynllun Ynni'r Fro. Roedd y gwaith dylunio'n cydnabod bod arnom angen i gymunedau, awdurdodau lleol a datblygwyr gydweithio er budd pobl Cymru er mwyn gwireddu manteision llawn ynni lleol. O ganlyniad i'r gwaith dylunio hwn ar y cyd, bydd y cynllun yn rhoi cymorth wedi'i deilwra sy'n gysylltiedig â chapasiti'r ymgeisydd, a fydd yn sicrhau bod cymunedau ac arnynt fwyaf o'i angen yn cael y cymorth mwyaf posibl trwy'r cynllun.

**Meithrin cadernid yn ein cymunedau**

O dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae'n rhaid i sefydliadau yn y sector cyhoeddus y mae'r dyletswyddau'n berthnasol iddynt gwblhau asesiadau risg, sy'n cynnwys cylch o adnabod peryglon posibl o fewn y cyd-destun lleol, asesu'r risgiau, ac ystyried sut y dylid rheoli'r risgiau hynny. Mae ganddynt hefyd ddyletswydd i gynnal cynlluniau ar gyfer atal argyfyngau; lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfyngau yn y camau ymateb ac adfer; a chymryd camau gweithredu eraill os ceir argyfyngau. Mae hyn hefyd yn cynnwys dyletswydd i gynnal cynlluniau i sicrhau eu bod yn gallu parhau i

arfer eu dyletswyddau os ceir argyfwng hyd y bo hynny'n rhesymol ymarferol. Mae hyn oll yn dibynnu ar ddeall ac ymateb i'r risgiau newidiol a achosir gan y newid yn yr hinsawdd.

Mae gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd yn elfen bwysig o drechu tlodi gan mai grwpiau ar incwm is a grwpiau eraill difreintiedig sy'n cyfrannu leiaf at achosi'r newid yn yr hinsawdd ond hwy sydd fwyaf tebygol o brofi ei effeithiau. Er enghraifft, yn nodweddiadol pobl hŷn, grwpiau ar incwm is a thenantiaid sydd fwyaf mewn perygl o effeithiau iechyd o ganlyniad i wres eithafol, oerfel a llifogydd, gan eu bod yn byw mewn tai o ansawdd gwaeth mewn lleoliadau arfordirol a llifogydd glaw mewn ardaloedd trefol â'r lleiaf o fannau gwyrdd. Er mwyn paratoi ar gyfer adroddiad Cymru ar gyfer Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd nesaf y DU, mae gwaith wedi cael ei wneud i wella ein dealltwriaeth am effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar fod yn agored i niwed yn gymdeithasol. Mae grŵp trawsadrannol wedi cael ei sefydlu i ystyried yr effeithiau ar gyfiawnder cymdeithasol ac effeithiau dosbarthiadol llifogydd a thywydd poeth ar lesiant pobl. Bydd canlyniadau'r prosiect yn bwydo i mewn i'r Asesiad nesaf o Risgiau Newid Hinsawdd.

Rhan allweddol o feithrin cadernid yw gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cynnal a chadw bron i 2000 o filltiroedd o amddiffynfeydd llifogydd a phrif afonydd a mwy na 4,000 o lifddorau, fflodiardau ac atalfeydd yng Nghymru sy'n helpu i leihau perygl llifogydd i dros 73,000 o gartrefi. Trwy gydol 2014/15 parhaodd CNC i fuddsoddi mewn amddiffynfeydd llifogydd, gan wario £18.7m, fe wnaeth waith cynnal a chadw i asedau atal llifogydd ac aeth y tu hwnt i'w darged blynyddol, sef bod 10,000 o bobl ychwanegol yn cymryd camau gweithredu i'w paratoi eu hunain yn erbyn perygl llifogydd.

**Cefnogi treftadaeth ddiwylliannol a gwasanaethau lleol Cymru**

Mae amgueddfeydd, archifau a gwasanaethau llyfrgelloedd yn cyflawni rôl allweddol o ran cefnogi ymdeimlad o gymuned ac ymdeimlad o le. Mewn cyd-destunau ariannol mwyfwy anodd, mae'r modelau cyflawni rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu harchwilio er mwyn ystyried sut i gyflawni mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Mae'r fenter Pob Plentyn yn Aelod o Lyfrgell (ECALM) yn targedu hyd at 35,000 o blant ym mlwyddyn 4 i roi aelodaeth o lyfrgell i bob plentyn yn awtomatig, trefnu gweithgareddau ac ysgogi hoffter o ddarllen. Bydd yr holl awdurdodau lleol wedi ymuno â'r cynllun erbyn mis Mawrth 2016. Canfu'r gwerthusiad cychwynnol o'r cam peilot gyda chwe awdurdod fod 53% o'r plant a arolygwyd wedi dweud bod aelodau eraill o'r teulu wedi ymuno â'r llyfrgell wedyn, a dywedodd 70% o'r athrawon a ymatebodd eu bod wedi gweld newidiadau/gwelliannau ar unwaith gyda lefelau darllen a diddordeb mewn darllen. Dengys tystiolaeth fod gan blant sy'n mwynhau darllen er mwyn pleser y tu allan i'r ysgol sgiliau llythrennedd gwell a chyfleoedd bywyd gwell[26]. Mae tystiolaeth wedi canfod hefyd bod darllen er mwyn pleser yn bwysicach na ffactorau megis lefel addysg rhieni (Ymchwil y Sefydliad

---

[26] http://www.ioe.ac.uk/newsEvents/89938.html

Addysg). Mae cofrestru plant yn awtomatig gyda'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cael gwared ar yr angen am ymwneud gan riant neu warcheidwad, gan felly helpu i gyrraedd teuluoedd nad ydynt o bosibl yn arfer darllen, a chan helpu i gyfrannu at drechu tlodi plant a theuluoedd.

Mae cryfhau ymdeimlad unigolyn o le a hunaniaeth yn amcan pwysig ar gyfer Strategaeth Amgueddfeydd Cymru, Mae CyMAL yn gweithio gyda'r elusen Kids in Museums i gynyddu lefel ymgysylltiad a chyfranogiad plant a phobl ifanc, er enghraifft trwy'r *Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd* ym mis Tachwedd. Ar y diwrnod hwn mae plant a phobl ifanc yn cymryd drosodd rai o'r swyddogaethau mewn amgueddfa (neu sefydliad arall cysylltiedig) ac yn cymryd y llyw. Yn 2014, cymerodd 37 o sefydliadau ran yn y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd ac fe gymerodd dros 1,000 o blant a phobl ifanc ran mewn digwyddiadau mewn Amgueddfeydd a sefydliadau cysylltiedig ledled Cymru gan roi i rai ohonynt eu profiad cyntaf o wasanaethau diwylliannol. Nid oedd 60% o'r plant a gymerodd ran yn y Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd wedi ymweld â'u hamgueddfa'n flaenorol gyda'u hysgol neu'u grŵp. Dywedodd 94% o'r plant a gymerodd ran eu bod yn teimlo'n hapus yn cael eu cynnwys, a dywedodd 84% eu bod yn teimlo'n falch.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl gymdeithasol hanfodol swyddfeydd post mewn cymunedau lleol ac mae wedi datblygu *Cronfeydd Datblygu ac Arallgyfeirio Swyddfeydd Post*. Mae enghreifftiau o'r budd a gafwyd o'r cronfeydd yn cynnwys Meirion Stores yn Llangernyw, Abergele. Hon yw'r siop olaf mewn pentref gwledig ac mae'n cynnig ystod o nwyddau a gwasanaethau y byddai trigolion lleol yn gorfod teithio'r tu allan i'r ardal i ddod o hyd iddynt fel arall, megis man casglu presgripsiwn, mynediad rhad-ac-am-ddim at wasanaethau arian parod a bancio ac amrywiaeth o fwydydd. Fe wnaeth grant o'r Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post eu galluogi i osod ramp i wella mynediad i'r siop a phrynu uned oeri newydd i wella'r amrywiaeth o gynnyrch ffres a gynigir. Bydd y grant bach hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl ag anableddau, pobl sydd heb gludiant a phobl â phroblemau symudedd sy'n ei gwneud yn anodd iddynt deithio.

Mae Swyddfa Bost Llansawel wedi'i lleoli mewn ardal amddifadus drefol, ac mae'n gwasanaethu cwsmeriaid rheolaidd sy'n bennaf yn oedrannus, yn rhieni ifanc neu'n derbyn amrywiaeth o fudd-daliadau gan gynnwys lwfans byw i'r anabl. Gofynnodd yr Is-bostfeistr i'w gwsmeriaid pa nwyddau a gwasanaethau ychwanegol yr oedd eu hangen arnynt. Dywedon nhw wrtho fod angen mynediad a lle cylchdroi gwell ar gyfer pobl anabl a choetsis a mwy o amrywiaeth o fwydydd gan fod hyn yn helpu cwsmeriaid i osgoi teithiau costus y tu allan i'r ardal. Fe wnaeth y grant hi'n bosibl cwblhau cyfres o welliannau a arweiniodd at ddyblu arwynebedd adwerthu'r siop, gan greu siop cyfleustra newydd yn sownd yn y swyddfa bost. Mae hon bellach yn gwerthu ystod o eitemau ffres, eitemau wedi'u rhewi ac eitemau cwpwrdd nad ydynt ar gael unrhyw le arall yn y gymuned.

## Atodiad 2 – Cynnydd Sectorau


**Cynnydd Sectorau**

Mae'r adran ganlynol yn dangos dadansoddiad ar gyfer pob un o'r sectorau allweddol y mae'r targed blynyddol o 3% yn eu cynnwys. Mae'n dangos, islaw'r gostyngiad ar y cyfan o 15%, bod cryn amrywiad o fewn y sectorau a bod cryn amrywiad blynyddol wedi bod hefyd. Mae allyriadau wedi gostwng o'i gymharu â'r llinell sylfaen ym mhob sector, ond mae'r gostyngiadau'n amrywio o -4.5% i -47%.

Ar gyfer pob sector, mae'r gostyngiadau o'i gymharu â'r llinell sylfaen yn 2006-10 fel a ganlyn:

- Mae allyriadau o'r sector Trafnidiaeth wedi gostwng -8.7%.
- Mae allyriadau o'r sector Busnes wedi gostwng -20.1%.
- Mae allyriadau o'r sector Preswyl wedi gostwng -10.5%.
- Mae allyriadau o'r sector Amaeth a Defnyddio Tir wedi gostwng -4.5%.
- Mae allyriadau o'r sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff wedi gostwng – 46.7%
- Mae allyriadau o'r sector Cyhoeddus Datganoledig wedi gostwng -13.6%.


Caiff y gyfran o'r allyriadau a gyfrannwyd gan bob un o'r sectorau a'r gostyngiadau mewn allyriadau a gyflawnwyd yn 2013 eu nodi yn y graff canlynol.




Ceir dadansoddiad pellach o'r allyriadau ar gyfer pob sector yn yr Atodiad.


<u>**Y Sector Trafnidiaeth**</u>

Mae'r sector Trafnidiaeth yn gyfrifol am oddeutu un rhan o bump (19%) o'r allyriadau sydd wedi'u cynnwys yn ein targed ar gyfer gostyngiad o 3%, gyda lefel sylfaen o ran allyriadau cyfartalog o 6.27 MtCO2e. Fel a ddangosir yn y graff isod, mae'r data diweddaraf yn dangos bod allyriadau o'r sector Trafnidiaeth wedi gostwng i 5.72 MtCO2e yn 2013, sy'n ostyngiad o -8.7% o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Mae allyriadau o'r sector Trafnidiaeth wedi gostwng 0.7% ers 2012, o'i gymharu â 2013. Er gwaethaf gwelliannau yn effeithlonrwydd cerbydau cludo, caiff y gostyngiadau mewn allyriadau yn y sector eu cymedroli gan y twf yn y galw am drafnidiaeth ers 1990 a fforddiadwyedd cynyddol ceir dros y cyfnod. Cyrhaeddodd allyriadau uchafbwynt yn 2007 ac ers hynny maent wedi gostwng, yn rhannol oherwydd gwelliannau i effeithlonrwydd tanwydd cyfartalog cerbydau a'r newid o geir petrol i geir diesel tuag at ddiwedd y gyfres amser.



## Y Sector Preswyl


Mae'r sector Preswyl yn gyfrifol am 23% o'r allyriadau sydd wedi'u cynnwys yn y targed o 3%. Mae'r lefel sylfaen o ran allyriadau cyfartalog yn y sector yn 7.67 $MtCO_2e$ ac mae'r data diweddaraf yn dangos allyriadau o 6.87 $MtCO_2e$, sy'n ostyngiad o -10.5% o'i gymharu â'r llinell sylfaen, fel a ddangosir gan y graff isod. Mae allyriadau yn y Sector Preswyl wedi gostwng -3.3% rhwng 2012 a 2013, a'r gostyngiad hwnnw'n cael ei ysgogi'n bennaf gan ostyngiad o 9% mewn allyriadau defnyddio trydan sy'n gyfrifol am 38% o allyriadau'r sector.




Cafodd y gostyngiad o 10.5% yn 2013 o'i gymharu â'r llinell sylfaen ei ysgogi'n bennaf gan welliannau mewn effeithlonrwydd ynni preswyl a gostyngiadau yn nwyster ynni prosesau cynhyrchu ynni yn y DU. Fodd bynnag, ceir amrywioldeb sylweddol o flwyddyn i flwyddyn mewn allyriadau yn y sector Preswyl, a hynny'n gysylltiedig â'r tywydd a defnydd cysylltiedig o danwydd ar gyfer gwresogi. Caiff hyn ei enghreifftio gan y cynnydd sylweddol mewn allyriadau o'r Sector Preswyl yn ystod gaeaf oer 2010, a'r gostyngiad mewn allyriadau yn ystod 2011, a oedd yn flwyddyn gynhesach o'i chymharu.

## Y Sector Busnes

Mae'r Sector Busnes yn gyfrifol am 31% o'r allyriadau sydd wedi'u cynnwys yn y targed ar gyfer gostyngiad mewn allyriadau o 3%[27] ac mae gan y sector lefel sylfaen o ran allyriadau cyfartalog o 11.41 MtCO2e. Mae'r graff isod yn dangos y data diweddaraf ynghylch allyriadau, sef 9.12 MtCO2e, sy'n cyfateb i ostyngiad o -20.1% mewn allyriadau yn y sector o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Mae allyriadau yn y Sector Busnes wedi gostwng -1.9% rhwng 2012 a 2013, yn bennaf oherwydd gostyngiad o 6% mewn defnydd o drydan gan ddefnyddwyr terfynol sy'n gyfrifol am 56% o allyriadau'r sector.




Heb os, mae cyfran sylweddol o'r gostyngiad ers 2006 i'w phriodoli i'r dirywiad economaidd yn y DU yn ystod y cyfnod hwn, gyda gostyngiad dramatig mewn allyriadau gan ddechrau yn 2007 o ganlyniad i ostyngiadau mewn allbwn gweithgynhyrchu. Ers 2009 mae allyriadau yn y sector busnes wedi bod yn gymharol sefydlog ac mae potensial uchel i allyriadau o'r sector busnes godi drachefn mewn blynyddoedd yn y dyfodol, gan ddibynnu ar gyfradd y twf economaidd a'r math o dwf economaidd yng Nghymru dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Mae defnydd o drydan gan ddefnyddwyr terfynol yn gyfrifol am 56% o allyriadau'r sector Busnes o fewn y targed o 3% yn 2013 ac yn gysylltiedig yn bennaf â gwresogi, goleuo a gweithio offer yn y sector. Gan hynny, yn ychwanegol at allbwn gweithgynhyrchu, mae tymheredd hefyd yn cael dylanwad sylweddol ar allyriadau'r sector gyda chynnydd mewn allyriadau yn ystod blynyddoedd oerach o ganlyniad i alwadau cynyddol am wresogi. Mae'r

[27] Nid yw hyn yn cynnwys allyriadau uniongyrchol o ddiwydiant trwm a phrosesau cynhyrchu ynni.

gaeaf oer yn 2010 yn rhannol gyfrifol am y cynnydd mewn allyriadau o’r sector busnes yn 2010.


## Y Sector Amaeth a Defnyddio Tir

Mae'r sector Amaeth a Defnyddio Tir yn gyfrifol am 20% o'r allyriadau sydd wedi'u cynnwys yn y targed o 3% ac mae gan y sector lefel allyriadau sylfaen o 6.12 MtCO2e. Mae'r graff isod yn dangos y data diweddaraf ar allyriadau, sef 5.84 MtCO2e, sy'n cyfateb i ostyngiad mewn allyriadau o'r sector hwn o -4.5% o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Mae allyriadau o'r Sector Amaeth a Defnyddio Tir wedi gostwng -1.1% rhwng 2012 a 2013. Nid oedd unrhyw duedd arwyddocaol mewn allyriadau o'r sector Amaeth yn ystod 2012 a 2013 (gostyngiad o 0.3%), er bod gostyngiad wedi bod mewn allyriadau o wartheg a chynnydd mewn allyriadau o ddefaid. Cafodd y gostyngiad rhwng 2012 a 2013 ei ysgogi'n bennaf gan gynnydd o 1% yng nghyfanswm net yr allyriadau $CO_2$ a gafodd eu tynnu o'r amgylchedd gan y sector LULUCF rhwng 2012 a 2013 (cynnydd ym maint y ddalfa). Hefyd, gostyngodd allyriadau sy'n gysylltiedig â defnyddio trydan gan ddefnyddwyr terfynol yn y sector Amaeth 14% ond mae allyriadau o ganlyniad i ddefnyddio trydan yn y sector yn elfen fach ac yn gyfrifol am 4% yn unig o gyfanswm allyriadau'r sector.



### Y Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff

Mae'r Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff yn gyfrifol am 4.0% o gyfanswm yr allyriadau sy'n rhan o'r targed o 3% ac mae gan y sector allyriadau sylfaen o 2.22 $MtCO_2e$. Mae'r graff isod yn dangos bod allyriadau o'r Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff wedi gostwng 46.7% o'i gymharu â'r llinell sylfaen yn 2006-2010 i 1.18 $MtCO_2e$ yn 2013. Mae allyriadau o'r Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff wedi gostwng -14.5% rhwng 2012 a 2013, o ganlyniad i systemau rheoli gwell sydd wedi lleihau allyriadau methan o safleoedd tirlenwi.




Mae'r gostyngiad hirdymor mewn allyriadau o'r Sector Effeithlonrwydd Adnoddau a Gwastraff i'w briodoli'n bennaf i gamau cynyddol i gyflwyno systemau bachu ac ocsideiddio methan fel rhan o reoli safleoedd tirlenwi.


## Y Sector Cyhoeddus

Mae'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd 2010 yn datgan y bydd y targed o 3% yn adrodd ar allyriadau o'r Sector Cyhoeddus sydd i'w priodoli'n uniongyrchol i weithrediadau Llywodraeth ddatganoledig Cymru[28]. Fel gyda'r adroddiad blaenorol, defnyddir y sector cyhoeddus datganoledig i adrodd ar berfformiad mewn perthynas â'r targed o 3% yn yr adroddiad hwn ond darperir y ddau amcangyfrif er mwyn cymharu yn y tabl isod.

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (MtCO2e) | Llinell Sylfaen (2006-10) | 2012 | 2013 | % y gostyngiad o'i gymharu â'r llinell sylfaen yn 2013 |
|---|---|---|---|---|
| Y Sector Cyhoeddus (cyfanswm) | 0.89 | 0.81 | 0.77 | -13.3% |
| Y Sector Cyhoeddus Datganoledig | 0.85 | 0.78 | 0.73 | -13.6% |

Mae'r Sector Gwasanaethau Cyhoeddus Datganoledig yn gyfrifol am 2.5% o gyfanswm yr allyriadau sy'n rhan o'r targed o 3% yn 2013 ac mae gan y sector linell sylfaen o 0.85 $MtCO_2e$. Mae'r Sector Cyhoeddus Datganoledig wedi cyflawni gostyngiad o -13.6% o'i gymharu â'r llinell sylfaen i 0.73 $MtCO_2e$ yn 2013. Mae allyriadau o'r Sector Cyhoeddus Datganoledig wedi gostwng -5.7% rhwng 2012 a 2013, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad o 11% mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â defnyddio trydan sy'n gyfrifol am 54% o allyriadau'r sector.

[28] Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, 2010. Tudalen 78. Ar gael yn: http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/strategy/?lang=cy



Lefelau allyriadau targed o 3% a'r llwybr allyriadau dangosol i gyrraedd targed 2020 yn y sector cyhoeddus
Allyriadau Nwyon Ty Gwydr yng Nghymru (MtCO e/flwyddyn)
1.00
0.95
0.90
0.85
0.80
0.75
0.70
0.65
0.60
Llinell sylfaen 2006-2010 ar gyfartaledd
Parth allyriadau targed dangosol
Lefel darged 2020 (gan gymryd bod gostyngiad o 3% y flwyddyn)
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
Blwyddyn
Llinell sylfaen 2006-2010 ar gyfartaledd
Lefelau allyriadau targed o 3%
Tuedd yr allyriadau 2006-2010 (yng nghyfnod y llinell sylfaen)

## Atodiad: Effaith symud i Gam 3 o System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd

Mae System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yn gweithredu mewn camau penodedig a chyda phob cam newydd caiff cwmpas System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ei ehangu i gynnwys ffynonellau hylosgi ychwanegol[29]. Dechreuodd Cam 3 yn 2013 a'i effaith yw symud cyfran fwy o allyriadau o'r sector anfasnachadwy i'r sector masnachadwy, sydd i bob pwrpas wedi lleihau cwmpas y targed o 3% rhwng 2012 a 2013.

Nid yw dull y targed o 3% yn ceisio cael gwared ar yr arteffact hwn sy'n gysylltiedig â newidiadau o un cam i'r llall dan System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n cymhwyso'r fethodoleg ar gyfer y cam yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd a oedd yn berthnasol yn ystod y flwyddyn allyriadau briodol (h.y. ar gyfer y blynyddoedd hyd at 2007, defnyddio dull Cam 1, 2008-2012 defnyddio dull Cam 2, ac o 2013 ymlaen defnyddio dull Cam 3).

Mae rhannu System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yn gamau yn nodwedd annatod ar y system masnachu ac nid yw'n bosibl i ddylanwad newidiadau o un cam i'r llall dan System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ar y targed o 3% gael ei waredu'n llwyr. Mae'r dull methodolegol a fabwysiadwyd yn y targed o 3% yn sicrhau bod y targed o 3% yn cynnwys yr holl allyriadau sy'n perthyn o fewn cymhwysedd datganoledig ar adeg eu rhyddhau ac mae'n gyson â'r diffiniad y cytunwyd arno ar gyfer y targed o 3%. Er y gallai'r dull hwn ganiatáu i nwyon ddod allan o raglen lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru yn dilyn newid o un cam i'r llall o fewn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd, mae unrhyw allyriadau sydd heb eu cynnwys yn symud i mewn i fframwaith rheoleiddio cryf a byddant yn dal i gael eu rheoli a'u lleihau ar lefel Ewrop gyfan o fewn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd. Felly, bydd y nod ar y cyfan, sef lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn dal i gael ei gyrraedd dan System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae effaith y newid i Gam 3 yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yn anodd i'w fesur yn union gan nad yw allyriadau a fasnechir yn gyson rhwng blynyddoedd ac felly mae unrhyw newid blynyddol yn cael ei ysgogi gan newid mewn allyriadau yn y sector masnachadwy, o ganlyniad i allbynnau cynhyrchu gwahanol, ac effaith cynnydd yng nghwmpas y cynllun, sy'n ychwanegu safleoedd a gweithgareddau newydd. Nid yw'r data'n ei gwneud yn bosibl ynysu'r ddwy elfen hon yn effeithiol ond gellir gwneud y sylwadau canlynol:

---

[29] Cafodd Cam 3 o System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ei ehangu i gynnwys diffiniad ehangach o hylosgi sy'n cynnwys pob proses llosgi tanwydd. Mae Cam 3 hefyd yn cyflwyno nwyon newydd (Ocsid nitraidd (N20) a Perfflworocarbonau (PFC)), cynhyrchu alwminiwm, a bachu carbon, trafnidiaeth a storio daearegol o fewn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd. Ceir rhai eithriadau newydd hefyd gan gynnwys opsiwn eithrio ar gyfer allyrwyr bach ac ysbytai lle gall y safleoedd hyn ddewis cael eu heithrio, ac eithriad i osodiadau lle defnyddir biomas yn unig.

- Ar lefel yr UE, amcangyfrifir bod y cynnydd mewn cwmpas o ganlyniad i ymestyn cwmpas Cam 3 ar ei ben ei hun yn gyfrifol am 4 i 5% o gyfanswm allyriadau'r UE yn 2013.

- Cynyddodd allyriadau dan System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru 20.2% yn 2013, o'i gymharu â 2012.
- Bu cynnydd o 6 yn nifer y gosodiadau o fewn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru, o 56 i 62, rhwng 2012 a 2013. Mae hyn o ganlyniad i amrywiad naturiol o flwyddyn i flwyddyn yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd ac effaith y cwmpas cynyddol yng Ngham 3.
- Roedd cynnwys safleoedd newydd yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd o ganlyniad i'r amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd a chwmpas cynyddol Cam 3 yn gyfrifol am 3.9% o'r cynnydd mewn allyriadau yn 2013.
- Roedd y twf mewn allyriadau ar safleoedd presennol o ganlyniad i amrywioldeb cynhyrchu a'r cynnydd yng nghwmpas y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yng Ngham 3 yn gyfrifol am 96.1% o'r cynnydd yn 2013. Yn wir, gall 80.7% o'r cynnydd yn 2013 gael ei egluro gan allyriadau cynyddol ar dri safle yn unig gan gynnwys gorsafoedd trydan Aberddawan a Phenfro a gwaith haearn a dur Port Talbot. Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn allbwn yng ngorsaf drydan Penfro ac yng ngwaith haearn a dur Port Talbot yn 2013 a disgwylir bod hynny wedi cael dylanwad mwy o lawer ar allyriadau na'r newid mewn cwmpas o ganlyniad i'r newid i Gam 3 yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd.
- Nid yw newidiadau o ran awyrennau dan Gam 3 wedi effeithio ar Gymru gan nad yw'r ddau weithredydd sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru yn cyrraedd y trothwy ar gyfer eu cynnwys yn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd.

I gloi, er bod allyriadau o fewn System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol yn 2013, disgwylir bod y mwyafrif o'r cynnydd hwn wedi bod o ganlyniad i gynnydd yn yr hyn a gynhyrchir ar safleoedd sy'n rhan o System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd. Er y bydd newid i Gam 3 wedi cyfrannu at y cynnydd hwn hefyd, mae ei effaith yn anodd i'w ynysu ond disgwylir mai cyfrannwr cymharol fach ydyw. Bydd y newid mewn cwmpas yn sgîl dechrau Cam 3 wedi cyfrannu at y gostyngiad o -2.5% mewn allyriadau o fewn y targed o 3% yr adroddwyd arno yn y flwyddyn hon ond ni ellir adnabod yr union gyfraniad o'r data.